Estyn

Rhagoriaeth i bawb – Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

Arfer orau mewn darllen ac ysgrifennu ymhlith disgyblion rhwng pump a saith oed

Iechyd ar Waith – Cyrraedd y Nod – The Corporate Standard – Health at Work

Buddsoddwyr mewn Pobl – Investor in People

Safon Amgylcheddol y Ddraig Werdd – Green Dragon Environmental Standard

MAWRTH 2009

Diben Estyn yw arolygu ansawdd a safonau mewn addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Mae Estyn yn gyfrifol am arolygu:

- ysgolion a safleoedd meithrin a gynhelir gan, neu sy'n cael arian gan awdurdodau lleol (ALlau);
- ysgolion cynradd;
- ysgolion uwchradd;
- ysgolion arbennig;
- unedau cyfeirio disgyblion;
- ysgolion annibynnol;
- addysg bellach;
- dysgu oedolion yn y gymuned;
- gwasanaethau cymorth ieuenctid;
- hyfforddiant gwaith ieuenctid a chymunedol;
- ALlau;
- addysg a hyfforddiant athrawon;
- dysgu yn y gwaith;
- cwmnïau gyrfaoedd;
- dysgu troseddwyr; ac
- elfennau addysg, arweiniad a hyfforddiant rhaglenni hyfforddi a ariennir gan Yr Adran Gwaith a Phensiynau.

Mae Estyn hefyd:

- yn rhoi cyngor ar ansawdd a safonau mewn addysg a hyfforddiant yng Nghymru i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ac eraill; ac
- yn cyhoeddi achosion o arfer dda yn seiliedig ar dystiolaeth arolygu.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor
Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gsi.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg)

Ⓗ **Hawlfraint y Goron 2009: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

Cynnwys	Tudalen

Cyflwyniad 1

Cefndir 2

Sail dystiolaeth yr adroddiad 4

Prif ganfyddiadau 5

Argymhellion 9

Safonau mewn Saesneg a Chymraeg fel iaith gyntaf yng nghyfnod allweddol 1 11

Cynllunio'r cwricwlwm 20

Ansawdd addysgu ac asesu 24

Bodloni anghenion disgyblion 27

Partneriaeth gyda rhieni 32

Arweinyddiaeth a rheolaeth 34

Atodiad 1: Astudiaethau achos sy'n dangos enghreifftiau o arfer orau mewn gwella medrau darllen ac ysgrifennu disgyblion

Atodiad 2: Pecyn offer ar gyfer hunanarfarnu a gwella mewn ysgolion

Awdur yr adroddiad cylch gwaith a thîm yr arolwg

Cyflwyniad

1 Pwrpas yr adroddiad hwn yw rhoi cyngor mewn ymateb i gylch gwaith gweinidogol blynyddol Estyn gan Lywodraeth Cynulliad Cymru. Mae'r adroddiad yn rhoi trosolwg o safonau ac ansawdd y ddarpariaeth mewn Cymraeg a Saesneg fel pynciau craidd yn y Cwricwlwm Cenedlaethol i blant rhwng pump a saith oed. Mae'n arfarnu'r gwaith o ddysgu ac addysgu darllen ac ysgrifennu ac yn nodi arfer orau mewn meysydd allweddol, gan gynnwys cynllunio'r cwricwlwm, asesu, bodloni anghenion disgyblion, partneriaeth gyda rhieni ac arweinyddiaeth a rheolaeth. Mae Atodiad 1 yn darparu astudiaethau achos o arfer orau.

2 Mae gallu darllen ac ysgrifennu'n gywir, yn rhugl ac mewn modd hyderus a dealladwy yn hanfodol er mwyn cyflawni safonau uchel mewn Cymraeg a Saesneg, yn ogystal â rhoi mwy o gyfle i ddisgyblion lwyddo yn yr ysgol. Nod yr adroddiad hwn yw llywio arfer bresennol a bod yn berthnasol i waith yng nghyd-destun y Cyfnod Sylfaen.

3 Yr her yw lledaenu arfer orau'n ehangach ac yn gyson fel bod y gwaith o ddysgu ac addysgu medrau darllen ac ysgrifennu cystal ag y gallant fod ym mhob ysgol ledled Cymru. Mae Atodiad 2 yn cynnwys pecyn offer ar gyfer hunanarfarnu a allai helpu ysgolion i adolygu a gwella meysydd pwysig o'u gwaith.

4 Mae'r adroddiad wedi'i fwriadu'n bennaf ar gyfer athrawon a chynorthwywyr cymorth dysgu'n sy'n gysylltiedig ag addysgu medrau darllen ac ysgrifennu mewn ysgolion cynradd; uwch reolwyr; ac ymgynghorwyr awdurdodau lleol (ALlau). Hefyd, gallai'r adroddiad fod o ddiddordeb i sefydliadau sy'n hyfforddi athrawon, awdurdodau esgobaethol eglwysi, cyrff cenedlaethol yng Nghymru ac eraill sydd â diddordeb mewn addysg.

5 Yr adroddiad hwn yw'r trydydd mewn cyfres o adroddiadau sy'n canolbwyntio ar ddarllen ac ysgrifennu sydd, gyda'i gilydd, yn rhoi arweiniad ar feysydd allweddol o ddysgu ac addysgu llythrennedd[1] ar gyfer disgyblion rhwng tair ac 14 oed. Yr adroddiadau yw:

- Gwella dysgu ac addysgu medrau darllen cynnar (2007); ac
- Arfer orau mewn darllen ac ysgrifennu disgyblion 7 i 14 oed (2008).

6 Mae'r adroddiadau hyn i'w gweld yn www.estyn.gov.uk.

7 Mae llawer o ystyriaethau wrth ddysgu ac addysgu medrau darllen ac ysgrifennu. Nid yw'r adroddiad hwn yn anelu at roi cyfrif terfynol o'r holl ystyriaethau hyn. Yn benodol, mae cyfeiriad at feysydd fel ffoneg wedi'i gynnwys yn adroddiad Estyn sy'n dwyn y teitl 'Gwella dysgu ac addysgu medrau darllen cynnar'.

8 Trwy gydol yr adroddiad, mae cyfeiriadau at ysgolion cynradd yn cynnwys ysgolion babanod.

[1] Cyfeiriadau at lythrennedd, gan gynnwys darllen ac ysgrifennu.

Cefndir

9 Mae pedwar llinyn iaith – sef gwrando, siarad[2], darllen ac ysgrifennu - yn rhyngberthyn ac yn datblygu gyda'i gilydd. Mae ymchwil yn dangos bod cynnydd cynnar mewn darllen ac ysgrifennu'n dibynnu ar ddatblygu iaith lafar y dysgwr. Felly, mae datblygu medrau llefaredd da yn hanfodol i lwyddiant wrth i ddisgyblion rhwng pump a saith oed ddysgu sut i ddarllen ac ysgrifennu. Nid yw tua un o bob saith o ddisgyblion yng Nghymru yn cyflawni'r lefel a ddisgwylir gan blant saith oed mewn llefaredd. Mae anawsterau mewn llefaredd yn cyfyngu ar gynnydd disgyblion wrth iddynt ddysgu sut i ddarllen ac ysgrifennu ac ym mhob maes dysgu arall.

10 Mae ymchwil yn cydnabod bod dysgu sut i ddarllen ac ysgrifennu yn rhoi mwy o her na dysgu sut i siarad. Er bod siarad, darllen ac ysgrifennu yn defnyddio iaith, nid ydynt yn adlewyrchu ei gilydd. Mae llawer o wahaniaethau rhwng iaith lafar ac iaith ysgrifenedig. Er enghraifft, mae iaith lafar yn aml yn ddigymell ac yn anffurfiol, mae fel arfer yn digwydd mewn cyd-destun lle mae rhywun arall yn bresennol, ac mae dealltwriaeth y gwrandäwr yn cael ei chynorthwyo gan ystumiau a thonyddiaeth y sawl sy'n siarad. Mae darllen yn cynnwys nifer o brosesau a medrau, gan gynnwys adnabod geiriau a dealltwriaeth. Mae darllenwyr hefyd yn defnyddio eu gwybodaeth am eirfa a gramadeg yn eu profiad ehangach gyda thestun er mwyn eu helpu i ddeall geiriau ysgrifenedig. Nodweddion nodedig ysgrifennu yw ei fod, fel arfer, yn drefnus ac yn barhaol, ac wedi'i gynllunio. Mae ysgrifennu effeithiol yn dibynnu ar ddysgu confensiynau sillafu, atalnodi a gramadeg a medrau llawysgrifen.

11 I lawer o ddisgyblion, mae deall sut mae symbolau ysgrifenedig yn cyfateb i iaith lafar, gwneud synnwyr o eiriau a brawddegau a dysgu a defnyddio confensiynau ysgrifennu yn dod yn heriau mawr, sy'n effeithio ar y cynnydd y maent yn ei wneud wrth ennill medrau darllen ac ysgrifennu. Mae "Daw meddyliau llafar yn rhwydd ar fuarth yr ysgol, ond mae rhai ysgrifenedig yn llafurus yn yr ystafell ddosbarth"[3] yn mynegi'r heriau hyn yn dda. Er bod darllen ac ysgrifennu'n dibynnu ar lefaredd, mae'n bwysig cydnabod mai ychydig iawn o gymheiriaid uniongyrchol sydd gan y prosesau a'r medrau sy'n gysylltiedig â darllen ac ysgrifennu mewn iaith lafar. Darllen ac ysgrifennu yw'r medrau y mae angen eu haddysgu'n eglur i ddisgyblion.

12 Yn ystod y degawd diwethaf, mae llawer o ysgolion wedi llwyddo i wella safon Cymraeg a Saesneg disgyblion. Fodd bynnag, ers y pum mlynedd diwethaf, mae'r enillion wedi bod yn anoddach eu cyflawni: mae cyflymder y gwelliant wedi arafu ac, yn y rhan fwyaf o achosion, mae cynnydd wedi lefelu. Mae gwahaniaethau rhwng cyflawniadau bechgyn a merched, sy'n amlwg erbyn i ddisgyblion gyrraedd saith mlwydd oed. Ar ddiwedd cyfnod allweddol 1, mae bechgyn tua naw pwynt canran y tu ôl i ferched wrth gyflawni o leiaf lefel 2 (y lefel a ddisgwylir gan y mwyafrif helaeth o blant saith oed). Mae hyn bron tair gwaith yn fwy na'r gwahaniaeth rhwng perfformiad bechgyn a merched mewn mathemateg a gwyddoniaeth. Mae'r 'bwlch rhyw' hwn yn ffenomen ryngwladol sydd i'w gweld yng Nghymru, mewn rhannau eraill o'r DU a thu hwnt. Mae'r gyfradd araf y mae bechgyn yn datblygu medrau darllen ac ysgrifennu arni yn cael ei chydnabod fel un o'r ffactorau cyfrannol sy'n arwain at fwlch ehangach fyth rhwng perfformiad bechgyn a merched yn ystod cyfnodau dysgu hwyrach.

---

2 Cyfeirir at siarad a gwrando fel llefaredd yng ngweddill yr adroddiad hwn.
3 *Growing Up Writing* (1991) A. Silberman

13 Pan fydd disgyblion yn ymarfer eu medrau darllen ac ysgrifennu mewn ystod o wahanol gyd-destunau pynciol, gallant ddatblygu eu medrau i lefelau uwch. Mae medrau darllen ac ysgrifennu da hefyd yn cefnogi pob agwedd ar ddysgu ar draws y cwricwlwm. Mae sicrhau bod disgyblion yn datblygu'r medrau hyn mewn modd cynyddol a systematig mewn pynciau ar draws y cwricwlwm yn eu galluogi i ddatblygu a gwella'r medrau y maent yn eu hennill mewn gwersi Cymraeg a Saesneg. Mae'n hunanamlwg, pan fydd disgyblion yn cael trafferth gyda darllen ac ysgrifennu, mae hyn yn effeithio ar eu cynnydd ym mhob pwnc arall.

14 Nid offer cyfathrebu yn unig yw darllen ac ysgrifennu, ond maent hefyd yn fedrau sy'n bwysig i'r broses o ddatblygu meddwl. Er enghraifft, pan fydd disgyblion yn esbonio'r hyn y maent yn ei hoffi am y stori y maent yn ei darllen ac wrth iddynt ysgrifennu am arbrawf sydd wedi gweithio, maent yn llunio eu barn eu hunain a'r gallu i fyfyrio ar eu dysgu. Yn hyn o beth, mae'r medrau darllen ac ysgrifennu yn hanfodol i ddatblygiad gwybyddol disgyblion, gan eu helpu i ddatblygu eu syniadau, ennill dealltwriaeth, ac archwilio'r byd a gwneud synnwyr ohono.

15 Ar hyn o bryd, yng Nghymru, mae'r cwricwlwm ysgol yn newid. Mae ymagweddau newydd tuag at addysg plant yn cael eu cyflwyno trwy'r Cyfnod Sylfaen i blant rhwng tair a saith oed[4]. Yn y cyfnod hwn, mae'r pwyslais ar ddysgu trwy brofiadau sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn a'r cyfnod yn ei (d)datblygiad, ac yn cynnwys hyrwyddo mwy o chwarae ac ymagweddau dysgu gweithredol, yn ogystal â phwyslais cryf ar ddefnyddio'r amgylchedd awyr agored fel adnodd dysgu. Mae'r ymagweddau hyn yn cynnig sawl mantais yn yr ymdrech i wella safonau darllen ac ysgrifennu, yn ogystal â chyfle unigryw i'r genhedlaeth nesaf o ddisgyblion Cymreig fod yn gwbl ddwyieithog, p'un a ydynt yn mynychu ysgolion cyfrwng Cymraeg, ysgolion dwyieithog neu ysgolion cyfrwng Saesneg. Mae newidiadau a datblygiadau eraill i'r cwricwlwm hefyd, gan gynnwys mwy o bwyslais ar gwricwlwm sy'n canolbwyntio ar fedrau[5], asesu ar gyfer dysgu ac egwyddorion addysgeg effeithiol, yn ogystal â datblygu metawybyddiaeth (meddwl am feddwl) er mwyn helpu disgyblion i fyfyrio ar eu dysgu a chyflawni mwy.

16 Yng nghyd-destun y newidiadau i'r cwricwlwm, pwysleisiau addysgol a'r her i wella cyflawniadau disgyblion, gan gynnwys perfformiad bechgyn, mae'r adroddiad hwn yn ystyried arfer orau mewn dysgu ac addysgu medrau darllen ac ysgrifennu ac yn rhoi arweiniad er mwyn helpu i godi safonau.

[4] Fframwaith ar gyfer Dysgu Plant 3 i 7 oed yng Nghymru (2008), Llywodraeth Cynulliad Cymru
[5] Fframwaith Sgiliau ar gyfer dysgwyr 3 i 19 oed yng Nghymru, (2008) Llywodraeth Cynulliad Cymru

Sail dystiolaeth yr adroddiad

17 Mae canfyddiadau ac argymhellion yr adroddiad hwn yn tynnu ar:

- ddadansoddiad o ganlyniadau arolygiadau ysgolion cynradd[6] a arolygwyd yn ystod 2005-2008;
- dadansoddiad o ganlyniadau asesiadau athrawon y Cwricwlwm Cenedlaethol mewn Cymraeg a Saesneg ar gyfer plant rhwng pump a saith oed;
- arsylwadau o addysgu llythrennedd a gwybodaeth a gafwyd o gyfweliadau â staff mewn 13 ysgol gynradd lle defnyddir Cymraeg neu Saesneg fel y prif gyfrwng addysgu;
- gwybodaeth a gafwyd o ddadansoddi canlyniadau arolygiadau o awdurdodau lleol (ALlau) a chyfweliadau ag ymgynghorwyr llythrennedd;
- craffu ar ddogfennau a ddarparwyd gan ysgolion ac ALlau; ac
- ymchwil a llenyddiaeth ddiweddar am addysgu darllen ac ysgrifennu.

[6] Ysgolion babanod ac adrannau babanod mewn ysgolion cynradd

Prif ganfyddiadau

Safonau darllen ac ysgrifennu

18 Ledled Cymru, mae llawer o ddisgyblion yn ennill medrau darllen ac ysgrifennu da mewn Cymraeg a Saesneg fel iaith gyntaf sy'n eu galluogi i symud ymlaen yn dda yn eu dysgu. Fodd bynnag, mae canran y disgyblion saith oed sy'n cyflawni o leiaf lefel 2 mewn Cymraeg a Saesneg wedi aros ar lefel debyg er 2000. Yn 2008, ni chyflawnodd tua un o bob pump o ddisgyblion y lefel a ddisgwylir gan y mwyafrif helaeth o blant saith oed mewn darllen ac ysgrifennu. Cyflawnodd ddwywaith y disgyblion y lefel 3 uwch yng nghanlyniadau asesiadau athrawon mewn darllen nac mewn ysgrifennu. Mae canran y disgyblion sy'n ennill y lefel 3 uwch yng nghanlyniadau asesiadau athrawon mewn darllen ac ysgrifennu wedi aros o gwmpas yr un lefel am y pum mlynedd diwethaf.

19 Mae'r bwlch rhwng perfformiad bechgyn a merched yn fwy mewn Cymraeg a Saesneg nac mewn unrhyw bynciau craidd eraill. Mae'r bwlch hwn wedi aros o gwmpas naw pwynt canran am yr wyth mlynedd diwethaf, gyda'r gwahaniaeth mwyaf mewn safonau ysgrifennu.

20 Rhwng 2005 a 2008, arolygwyd safonau mewn Cymraeg a Saesneg iaith gyntaf mewn rhyw bedwar cant o ysgolion cynradd [7] yng Nghymru. Nododd yr arolygiadau safonau da neu well yng ngwaith y disgyblion mewn darllen ac ysgrifennu mewn 82% o'r ysgolion cynradd cyfrwng Saesneg a 77% o'r ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg. Ar y cyfan, y meysydd mwyaf cyffredin y mae angen eu gwella mewn safonau darllen ac ysgrifennu disgyblion mewn Cymraeg a Saesneg yw:

- diffyg defnydd o ystod eang o strategaethau datgodio;
- rhuglder a mynegiant cyfyng wrth ddarllen;
- medrau annatblygedig o ran adalw gwybodaeth;
- diffyg medrau ysgrifennu estynedig; a
- gwendidau mewn sillafu, atalnodi, gramadeg a llawysgrifen.

21 Mae siartiau 1 a 2 isod yn dangos, mewn rhai ysgolion cyfrwng Cymraeg a chyfrwng Saesneg lle'r oedd diffygion mewn darllen ac ysgrifennu, bod diffygion ym medrau llefaredd y disgyblion hefyd. Mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg, mae gan gyfran gynyddol o ddisgyblion gefndiroedd Saesneg ac, yn ystod y cyfnod hwn, gallai medrau llefaredd y disgyblion hyn fod yn llai datblygedig.

[7] Cymraeg a/neu Saesneg oedd dau o'r pynciau a arolygwyd mewn arolygiad safonol neu lawn. Cafodd ysgolion eraill arolygiad byr lle nad oes unrhyw bynciau'n cael eu harolygu.

Siart 1: Safonau mewn Saesneg mewn ysgolion cyfrwng Saesneg yng nghyfnod allweddol 1 a nodwyd trwy arolygiadau



Siart 2: Safonau mewn Cymraeg mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg yng nghyfnod allweddol 1 a nodwyd trwy arolygu



22 Pan fydd disgyblion fedrau llafar cyfyng, mae hyn yn cael effaith uniongyrchol ar eu cynnydd cynnar wrth ddatblygu medrau darllen ac ysgrifennu. Felly, rhaid i wella medrau llefaredd disgyblion fod yn rhan hanfodol o waith ysgolion i godi safonau mewn darllen ac ysgrifennu.

Addysgu ac asesu

23 At ei gilydd, mae ansawdd yr addysgu mewn Cymraeg a Saesneg ar gyfer y rhan fwyaf o blant rhwng pump a saith oed yn dda. Mae darllen ac ysgrifennu yn aml yn cael eu haddysgu'n uniongyrchol mewn modd medrus trwy ddulliau fel darllen dan arweiniad ac ysgrifennu ar y cyd. Yn yr arfer orau, mae athrawon yn cysylltu gwaith llafar, darllen ac ysgrifennu ac yn darparu cymysgedd gofalus o weithgareddau dysgu gweithredol sydd wedi'u strwythuro.

24 Mewn rhai ysgolion, mae ystod y tasgau ysgrifennu sy'n cael eu gosod yn fformwläig neu nid ydynt yn gofyn am ddigon o ymdrech gan ddisgyblion o ran ysgrifennu estynedig. Lle mae taflenni gwaith yn cael eu gorddefnyddio neu pan nad ydynt yn feichus, mae disgyblion yn cael llai o gyfle i ysgrifennu'n annibynnol ac yn fwy helaeth.

25 Mae'r gwaith o asesu darllen ac ysgrifennu wedi gwella bob blwyddyn. Mae'r rhan fwyaf o ysgolion yn defnyddio ystod o ddata perfformiad yn dda i olrhain cynnydd disgyblion. Nid yw'r defnydd o asesu i gynllunio gwelliannau mewn ysgrifennu yr un mor effeithiol â'r defnydd o wybodaeth asesu i wella darllen.

26 Yn yr ysgolion mwyaf effeithiol, mae technegau, fel asesu ar gyfer dysgu, yn helpu disgyblion i wybod ble y maent arni, yr hyn y mae angen iddynt ei wneud er mwyn gwella a sut i wella. Mae'r defnydd o osod targedau yn cynnwys disgyblion yn gynyddol. Mae mwy o ysgolion yn rhoi cyfleoedd i ddisgyblion asesu eu gwaith eu hunain a gwaith disgyblion eraill, ond nid yw'r arfer hon yn ddigon eang.

Cynllunio'r cwricwlwm

27 Mae'r rhan fwyaf o ysgolion yn llunio cynlluniau cydlynol a chynhwysfawr ar gyfer y cwricwlwm, sy'n tynnu ar arweiniad yr awdurdod lleol, arweiniad masnachol ac arweiniad arall. Fel arfer, mae gwaith wedi'i drefnu o gwmpas pynciau neu themâu addas. Mewn ychydig iawn o ysgolion, nid oes digon o gynllunio i ddisgyblion ennill ystod eang o strategaethau datgodio a medrau adalw gwybodaeth. Yn y mwyafrif o ysgolion, nid yw disgyblion yn cael digon o gyfleoedd i ddatblygu eu medrau ysgrifennu ar gyfer cynulleidfaoedd dilys, heblaw athrawon.

28 Mae llawer o ysgolion yn cydnabod natur gyfannol dysgu iaith ac yn cynllunio'n dda ar gyfer pob agwedd arno ac yng nghyd-destun y newidiadau sy'n gysylltiedig â'r Cyfnod Sylfaen. Yn yr ysgolion mwyaf effeithiol, mae hyn yn amlwg yn y cynlluniau cytbwys ar gyfer gwaith llythrennedd strwythuredig, ochr yn ochr â gweithgareddau iaith sydd wedi'u seilio ar chwarae er mwyn sicrhau medrau llafar, darllen ac ysgrifennu.

29 Mewn rhai ysgolion, gall cynllunio hynod strwythuredig ac ymlyniad llym wrth gynllun penodol gyfyngu ar gwmpas dysgu disgyblion, yn enwedig wrth ddatblygu creadigedd a bodloni anghenion disgyblion mwy galluog a thalentog. Mewn rhai ysgolion cyfrwng Cymraeg, nid yw cynllunio'r cwricwlwm yn rhoi digon o ystyriaeth i anghenion dysgu penodol disgyblion nad ydynt yn siarad Cymraeg fel eu hiaith gyntaf yn rhugl.

Bodloni anghenion disgyblion

30 Mae'r rhan fwyaf o ysgolion yn rhoi cymorth da mewn darllen ac ysgrifennu i ddisgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig a'r rheiny sy'n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol. Mae rhaglenni cymorth yn canolbwyntio mwyfwy ar wella medrau llefaredd disgyblion.

31 Fel rheol, mae'r disgyblion hyn yn cael cymorth i wella ei medrau sillafu a llawysgrifen ond, yn aml, nid oes digon o bwyslais ar gyfansoddiad ysgrifennu, fel dethol, trefnu a datblygu syniadau a gwybodaeth.

32 Mae mwy o ysgolion yn gwella'r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion mwy galluog a thalentog. Fodd bynnag, dim ond lleiafswm bach o ysgolion sy'n rhoi tasgau darllen ac ysgrifennu i'r disgyblion hyn sy'n eu hymestyn ac yn eu herio. Mae ysgolion effeithiol yn defnyddio ystod o strategaethau, gan gynnwys pwyslais cryf ar ddulliau datrys problemau a gosod tasgau ysgrifennu mewn ystod eang o arddulliau a genres. Yn yr ysgolion hyn, mae staff hefyd yn ymwybodol y gall gorbwyslais ar ddulliau ysgrifennu traethiadol fod yn llai deniadol i fechgyn. Mewn ychydig iawn o ysgolion, mae camsyniadau neu ddehongliadau cul o'r hyn sy'n diffinio disgyblion mwy galluog a thalentog yn rhwystro'r gwaith o adnabod a chefnogi'r disgyblion hyn.

Partneriaeth gyda rhieni

33 Fel arfer, mae gan ysgolion gysylltiadau da â rhieni ac mae llawer ohonynt yn darparu ystod dda o wybodaeth ar gyfer rhieni, yn enwedig ynghylch sut mae eu plentyn yn dysgu sut i ddarllen a sillafu. Fel arfer, mae llai o wybodaeth i rieni am sut mae'r ysgol yn hyrwyddo medrau darllen a sut y gall rhieni gefnogi eu plant.

Arweinyddiaeth a rheolaeth

34 Mae arweinyddiaeth a rheolaeth â ffocws mewn ysgolion cynradd wedi arwain at welliannau mewn medrau llythrennedd disgyblion yn ystod y 10 mlynedd diwethaf. Mae arweinyddiaeth llawer o athrawon sy'n gyfrifol am Gymraeg a Saesneg wedi cyfrannu'n sylweddol at y gwelliannau yn ansawdd y cynllunio, dilyniant a pharhad ac addysgu ac asesu.

35 Yn ystod y 10 mlynedd diwethaf, darllen fu'r flaenoriaeth fwyaf ar gyfer ei ddatblygu mewn cynlluniau gwella ysgolion yn aml. Hyd yn oed pan fydd angen gwella safonau ysgrifennu, nid yw rhai ysgolion yn rhoi blaenoriaeth iddo.

36 Mae'r rhan fwyaf o awdurdodau lleol yn rhoi cymorth da i ysgolion i wella safonau mewn Cymraeg a Saesneg ar gyfer plant rhwng pump a saith oed. Mae'r arfer ragorol mewn rhai awdurdodau wedi cyfrannu'n sylweddol at safonau medrau darllen ac ysgrifennu disgyblion yn y cyfnod hwn. Yn ystod y 10 mlynedd diwethaf, mae'r strategaeth llythrennedd dda iawn a'r cymorth rhagorol ar gyfer llythrennedd mewn ysgolion yng Nghasnewydd gan yr awdurdod lleol wedi helpu i godi a chynnal safonau uchel yng nghyfnod allweddol 1. Yn fwy diweddar, mae gwaith ymgynghorol o ansawdd uchel a mentrau i wella lefelau llythrennedd, yn enwedig ysgrifennu, yn helpu ysgolion yn awdurdod lleol Caerffili i godi safonau yng nghyfnod allweddol 1 ar gyfradd wella uwch o lawer na'r cyfartaledd ledled Cymru gyfan .

37 Nid yw pob awdurdod yn dadansoddi data penodol ar ddarllen ac ysgrifennu yn ddigon manwl i'w helpu i gefnogi a herio perfformiad ysgolion.

Argymhellion

Dylai ysgolion:

A1 barhau i godi safonau mewn Cymraeg a Saesneg trwy roi sylw i ddatblygu'r canlynol mewn disgyblion:

- eu medrau llefaredd i gefnogi eu cynnydd wrth ddysgu i ddarllen ac ysgrifennu;
- eu defnydd o ystod eang o strategaethau darllen;
- eu strategaethau adalw gwybodaeth;
- eu medrau o ran ysgrifennu'n estynedig; a'u
- sillafu, atalnodi, gramadeg a llawysgrifen;

A2 parhau i wella cynllunio'r cwricwlwm:

- trwy gysoni cynllunio presennol ag athroniaeth y Cyfnod Sylfaen er mwyn darparu cymysgedd ofalus o weithgareddau darllen ac ysgrifennu strwythuredig sydd wedi'u seilio ar chwarae;
- trwy beidio ag ymlynu'n llym wrth gynlluniau cyhoeddedig pan fo hyn yn cyfyngu ar gwmpas dysgu disgyblion;
- ar gyfer anghenion dysgu penodol disgyblion nad ydynt yn siarad Cymraeg fel iaith gyntaf mewn ysgolion lle mae'r mwyafrif wedi bod yn siaradwyr iaith gyntaf yn draddodiadol; ac
- i alluogi medrau cyfathrebu (llefaredd, darllen ac ysgrifennu) i gael eu datblygu'n gynyddol mewn pynciau ar draws y cwricwlwm;

A3 parhau i wella addysgu ac asesu trwy:

- sicrhau bod llefaredd, darllen ac ysgrifennu yn cydgysylltu â'i gilydd yn effeithiol;
- gosod ystod eang o dasgau ysgrifennu sy'n galluogi disgyblion i ddatblygu eu hysgrifennu estynedig;
- defnyddio arddulliau addysgu sy'n datblygu medrau meddwl disgyblion, gan gynnwys eu medrau holi, cynllunio a datrys problemau;
- sicrhau bod asesu ysgrifennu disgyblion yn cael ei ddefnyddio'n llawn i gynllunio gwelliannau; a
- darparu cyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu eu gallu i asesu eu hunain ac asesu eu cymheiriaid;

A4 bodloni anghenion disgyblion yn llawnach trwy:

- gefnogi disgyblion i wella pob agwedd ar eu hysgrifennu;
- rhoi tasgau i ddisgyblion mwy galluog a thalentog sy'n eu hymestyn ac yn eu herio; a
- chanolbwyntio ar ba fechgyn sy'n tangyflawni;

A5 parhau i feithrin partneriaethau gyda rhieni trwy:

- ddarparu mwy o wybodaeth am sut y gallant helpu i ddatblygu medrau darllen eu plant; a

A6 rhoi blaenoriaeth i ddarllen ac ysgrifennu trwy:

- dargedu'r agweddau gwannach ar fedrau llythrennedd sydd i'w gweld yn yr ysgol;
- ymuno â rhwydweithiau dysgu proffesiynol i rannu arfer dda; ac
- adolygu darpariaeth a safonau llythrennedd yn rheolaidd yn unol â'r arfer dda a nodir yn yr adroddiad hwn.

Mae Atodiad 2 yn darparu pecyn offer manylach ar gyfer hunanarfarnu a gwella mewn ysgolion.

Dylai awdurdodau lleol:

A7 gytuno ar strategaeth awdurdod-cyfan sy'n nodi camau gweithredu eglur i wella safonau llefaredd, darllen ac ysgrifennu ar gyfer plant rhwng pump a saith oed, sy'n cynnwys ffocws ar y materion a godwyd yn yr argymhellion uchod; a

A8 dysgu oddi wrth yr arfer ragorol mewn rhai awdurdodau o ran sicrhau a chynnal gwelliannau mewn darllen ac ysgrifennu.

Dylai darparwyr addysg cychwynnol athrawon:

A9 nodi cynnwys yr adroddiad hwn er mwyn llywio'r gwaith o hyfforddi athrawon newydd.

Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru:

A10 barhau i sicrhau bod cyllid ar gael i awdurdodau lleol gydweithio ag ysgolion er mwyn gwella medrau darllen ac ysgrifennu, gyda ffocws penodol ar ysgrifennu.

Safonau mewn Cymraeg a Saesneg fel iaith gyntaf yng nghyfnod allweddol 1

38 Mae canran y plant saith oed sy'n cyflawni o leiaf lefel 2 wedi aros ar lefel debyg mewn Cymraeg a Saesneg fel iaith gyntaf er 2000. Cyrhaeddodd safonau eu lefel uchaf yn 2005. Mewn Cymraeg a Saesneg fel ei gilydd, nid yw tua un o bob pump o ddisgyblion yn cyflawni'r lefel a ddisgwylir gan y mwyafrif helaeth o blant saith oed mewn darllen nac ysgrifennu. Mae canran y disgyblion sy'n ennill y lefel 3 uwch yng nghanlyniadau asesiadau athrawon mewn darllen ac ysgrifennu wedi aros ar lefel debyg am y pum mlynedd diwethaf hefyd. Mae diffyg medrau llythrennedd yn effeithio ar gynnydd cyffredinol disgyblion ac yn cyfyngu ar y modd y gallant gyflawni yn yr ysgol ac yn hwyrach yn eu bywydau.

39 Mae siartiau 3 a 4 isod yn dangos y safonau a gyflawnwyd gan ddisgyblion mewn Cymraeg a Saesneg o 2000 i 2008[8].

Siart 3: Asesiadau athrawon y Cwricwlwm Cenedlaethol o blant saith oed mewn Saesneg



* Y lefel ddisgwyliedig ar gyfer cyfnod allweddol 1 yw lefel 2.

[8] Cyfarwyddiaeth Ystadegol, Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Siart 4: Asesiadau athrawon y Cwricwlwm Cenedlaethol o blant saith oed mewn Cymraeg



* Y lefel ddisgwyliedig ar gyfer cyfnod allweddol 1 yw lefel 2.

40 Yn bum mlwydd oed, bydd y rhan fwyaf o ddisgyblion wedi cyflawni safonau uwch mewn llefaredd mewn Cymraeg a Saesneg nag mewn darllen neu ysgrifennu. Mae hyn oherwydd bod dysgu sut i ddarllen ac ysgrifennu yn dibynnu ar fedrau iaith lafar disgyblion. Fel arfer, mae disgyblion yn datblygu medrau darllen yn gynharach ac ynghynt na'u medrau ysgrifennu. Yn 2008, cyflawnodd tua dwywaith cymaint o ddisgyblion y lefel 3 uwch mewn darllen nag mewn ysgrifennu mewn Cymraeg a Saesneg. Mae'r gwahaniaeth rhwng safonau darllen ac ysgrifennu ar lefel 3 wedi bod yn weddol gyson yn ystod y pum mlynedd diwethaf. Mae siartiau 5 a 6 isod yn dangos canran y disgyblion sy'n ennill lefel 2 neu'n uwch mewn llefaredd, darllen ac ysgrifennu mewn Cymraeg a Saesneg.

Siart 5: Canran y disgyblion sy'n ennill lefel 2 neu'n uwch mewn llefaredd, darllen ac ysgrifennu mewn Saesneg



Siart 6: Canran y disgyblion sy'n ennill lefel 2 neu'n uwch mewn llefaredd, darllen ac ysgrifennu mewn Cymraeg



Perfformiad bechgyn a merched

41 Mae asesiadau athrawon y Cwricwlwm Cenedlaethol yn dangos gwahaniaethau rhwng cyflawniadau bechgyn a merched saith oed mewn Cymraeg a Saesneg yn gyson. Mae'r wybodaeth am berfformiad bechgyn a merched yn nhablau 7 ac 8 isod yn dangos bod perfformiad bechgyn tua naw pwynt canran y tu ôl i berfformiad merched. Nid yw'r gwahaniaeth hwn wedi newid yn ystod y pum mlynedd diwethaf. Mae'r gwahaniaeth rhwng perfformiad bechgyn a merched yn parhau mewn cyfnodau allweddol eraill.

Siart 7: Asesiadau athrawon y Cwricwlwm Cenedlaethol o fechgyn a merched mewn Saesneg yng nghyfnod allweddol 1



Siart 8: Asesiadau athrawon y Cwricwlwm Cenedlaethol o fechgyn a merched mewn Cymraeg yng nghyfnod allweddol 1



42 Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, mae gwaith i gau'r bwlch wedi gwella perfformiad bechgyn ar y cyfan, ond mae'r gwahaniaeth rhwng y safonau y mae bechgyn a merched yn eu cyflawni yr un fath o hyd. Mae hyn oherwydd bod merched hefyd wedi cael budd o'r camau gweithredu y mae ysgolion wedi'u cymryd i wella perfformiad bechgyn. Mae adroddiad Estyn 'Cau'r bwlch rhwng cyrhaeddiad bechgyn a merched mewn ysgolion' (2008) yn cyfeirio'n fanylwch at y materion dan sylw.

Meysydd i'w gwella

43 Mae'r gwaith o arolygu Cymraeg a Saesneg yn digwydd mewn cyfran[9] o ysgolion a arolygir bob blwyddyn. Mae dadansoddiad o ganlyniadau arolygu o ysgolion rhwng 2005 a 2008 yn dangos diffygion yn safonau gwaith disgyblion mewn darllen ac ysgrifennu mewn tua un rhan o bump o'r ysgolion cynradd cyfrwng Saesneg a thua chwarter o'r ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg. Yn yr ysgolion hyn, y diffygion mwyaf cyffredin mewn darllen mewn Cymraeg a Saesneg fel ei gilydd oedd ystod gyfyng o strategaethau datgodio a diffyg rhuglder a mynegiant wrth ddarllen. Hefyd, roedd diffygion ym medrau adalw gwybodaeth disgyblion mewn rhai ysgolion cyfrwng Saesneg ac ychydig iawn o ysgolion cyfrwng Cymraeg.

44 Mae siartiau 9 a 10 isod yn dangos y diffygion yn yr ysgolion lle'r oedd arolygwyr o'r farn bod safonau mewn Cymraeg neu Saesneg yn radd 3[10] neu'n radd 4[11].

---

9 Mae'r ysgolion hyn yn cael arolygiad safonol neu arolygiad llawn. Ni chaiff unrhyw bynciau eu harolygu mewn arolygiadau byr.

10 Diffiniad gradd 3 yw bod y nodweddion da yn gorbwyso'r diffygion.

11 Diffiniad gradd 4 yw bod rhai nodweddion da, ond diffygion mewn meysydd pwysig.

Siart 9: Diffygion mewn safonau darllen disgyblion mewn Saesneg



45 Mae'r diffygion 'eraill' mewn darllen disgyblion mewn Saesneg a nodwyd gan yr arolygiadau yn cynnwys:

- dealltwriaeth gyfyng o strwythur stori;
- diffyg hyder wrth ddarllen ar goedd; a
- medrau dealltwriaeth cyfyng.

Siart 10: Diffygion mewn safonau darllen disgyblion mewn Cymraeg



46 Mae'r diffygion 'eraill' mewn darllen disgyblion mewn Cymraeg a nodwyd gan yr arolygiadau yn cynnwys:

- dealltwriaeth gyfyng o strwythur stori;
- medrau dealltwriaeth cyfyng; a
- diffyg brwdfrydedd tuag at ddarllen a diffyg hyder wrth ddarllen ar goedd.

47 Mae siartiau 11 a 12 yn dangos mai'r diffygion mwyaf cyffredin mewn ysgrifennu disgyblion mewn Cymraeg a Saesneg oedd diffyg medrau ysgrifennu estynedig a gwallau wrth sillafu a defnyddio atalnodau a gramadeg. Mewn ysgolion cyfrwng Saesneg, roedd diffygion penodol hefyd mewn llawysgrifen disgyblion a'r gwaith o gynllunio a threfnu eu hysgrifennu.

Siart 11: Diffygion mewn safonau ysgrifennu disgyblion mewn Saesneg



48 Mae'r diffygion 'eraill' mewn ysgrifennu disgyblion mewn Saesneg a nodwyd gan yr arolygiadau yn cynnwys:

- ystod gul o ysgrifennu at wahanol ddibenion a ffurfiau ar ysgrifennu;
- diffyg defnydd o dechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu; a
- medrau cyfyng mewn ysgrifennu annibynnol.

Siart 12: Diffygion mewn safonau ysgrifennu disgyblion mewn Cymraeg



49 Mae'r diffygion 'eraill' mewn ysgrifennu disgyblion mewn Cymraeg a nodwyd gan yr arolygiadau yn cynnwys:

- diffyg medrau cynllunio;
- gwendidau wrth drefnu gwaith ysgrifenedig; ac
- annibyniaeth gyfyng.

50 Lle'r oedd arolygwyr o'r farn bod diffygion ym medrau darllen ac ysgrifennu disgyblion, roeddent hefyd yn nodi bod diffygion ym medrau llefaredd disgyblion yn aml. Mae'r canfyddiadau hyn i'w gweld yn nhablau 13 ac 14 isod.

Siart 13: Diffygion yn safonau ysgrifennu disgyblion mewn Saesneg



Siart 14: Diffygion yn safonau ysgrifennu disgyblion mewn Cymraeg



51 Mae siart 14 yn dangos bod gan fwy o ddisgyblion mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg ddiffygion yn safonau eu Cymraeg. Fodd bynnag, mae cyfran gynyddol o'r disgyblion hyn yn dod o gefndiroedd Saesneg a gallai medrau llefaredd y disgyblion hyn fod yn llai datblygedig yn ystod y cyfnod hwn. Mae'r adroddiad hwn eisoes wedi cyfeirio at ddibyniaeth darllen ac ysgrifennu ar fedrau iaith lafar disgyblion, sy'n effeithio ar gynnydd cyffredinol disgyblion. Er bod ffocws cadarn ar ddatblygu iaith lafar mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg mewn ardaloedd lle nad oes llawer o bobl yn siarad Cymraeg fel arfer, mae'r canfyddiad hwn yn dangos bod angen i'r ysgolion hyn wneud mwy i helpu disgyblion i ddatblygu eu medrau llefaredd. Er gwaethaf yr arwyddocâd penodol y canfyddiad hwn i ysgolion cyfrwng Cymraeg, rhaid i wella medrau llefaredd disgyblion fod yn rhan hanfodol o waith pob ysgol i godi safonau mewn Cymraeg a Saesneg.

Cynllunio'r cwricwlwm

52 Dros y 10 mlynedd diwethaf, mae ansawdd cynllunio'r cwricwlwm ar gyfer addysgu Cymraeg a Saesneg i blant rhwng pump a saith oed wedi gwella ym mron pob ysgol gynradd. Fel arfer, mae ysgolion yn gwneud defnydd da o ystod o wybodaeth, gan gynnwys arweiniad gan yr awdurdod lleol, mentrau'r llywodraeth ac adnoddau masnachol i lunio cynlluniau cydlynol, cynhwysfawr er mwyn sicrhau bod disgyblion yn cael cyfleoedd i ennill y wybodaeth, y ddealltwriaeth a'r medrau a nodir yn y Cwricwlwm Cenedlaethol.

53 Mae'r rhan fwyaf o ysgolion yn seilio gwaith ar bynciau neu themâu sy'n helpu i wneud gwaith yn ddiddorol ac yn berthnasol i ddisgyblion. Mae ysgolion effeithiol yn ystyried dysgu iaith yn gyfannol: cymorth ar gyfer llefaredd, darllen ac ysgrifennu a gwella datblygu iaith yn gyffredinol. Lle mae ysgolion yn gwneud hyn orau, maent yn datblygu iaith yn y cyd-destun y caiff ei defnyddio ynddo ac yn ennyn diddordeb disgyblion yn weithredol.

54 Yn fwyfwy, mae ysgolion yn cydweithio, gyda chymorth awdurdodau lleol, i ddod ag arferion ac ymagweddau presennol tuag at ddysgu ac addysgu Cymraeg a Saesneg at ei gilydd ynghyd ag egwyddorion y Cyfnod Sylfaen a fydd yn berthnasol i blant chwech a saith oed o 2010 a 2011, yn y drefn honno. Mewn nifer gynyddol o ysgolion, mae hyn i'w weld yn y cynllunio cytbwys ar gyfer gweithgareddau iaith sydd wedi'u seilio ar chwarae ochr yn ochr â gwaith strwythuredig, mwy ffurfiol mewn darllen ac ysgrifennu. Er enghraifft, mae'r ysgolion hyn yn cynllunio gweithgareddau llythrennedd sy'n manteisio mwy ar chwarae rôl, drama a dysgu yn yr awyr agored fel y gall disgyblion gael profiadau uniongyrchol ymarferol. Lle mae hyn yn fwyaf llwyddiannus, mae'r disgyblion yn datblygu geirfa helaeth a phrofiad llafar, sy'n helpu i gynnal a chefnogi eu darllen a'u hysgrifennu mewn gwersi llythrennedd yn ogystal â mewn pynciau ar draws y cwricwlwm. Mae'r ymagwedd hon hefyd yn galluogi ysgolion i roi mwy o bwyslais ar ddulliau dysgu gweithredol er mwyn darparu cyfleoedd darllen ac ysgrifennu symbylol. Hefyd, mae'r rhan fwyaf o ysgolion yn cydnabod effaith ysgogol technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) ar ddysgu disgyblion. Maent yn cynllunio'n dda i ddisgyblion gael mynediad at ganolfannau gwrando, llyfrau electronig, cyfrifiaduron a chamerâu digidol, sy'n helpu i ddatblygu medrau llythrennedd disgyblion.

55 Mewn rhai ysgolion, yn ystod yr ychydig flynyddoedd diwethaf, mae cynllunio athrawon wedi dod yn hynod strwythuredig ac maent yn aml yn ymlynu'n llym wrth gynllun llythrennedd cyhoeddedig penodol. Er bod y math hwn o gynllunio'n darparu fframwaith cadarn ar gyfer addysgu, a bod defnyddio cynllun yn gyson yn helpu dilyniant, weithiau gall yr arfer hon gyfyngu ar ddysgu disgyblion, yn enwedig o ran datblygu creadigedd disgyblion a bodloni anghenion disgyblion mwy galluog a thalentog. Mewn lleiafrif o ysgolion mewn ardaloedd Cymraeg eu hiaith yn draddodiadol, nid yw cynllunio'r cwricwlwm yn rhoi digon o ystyriaeth i anghenion dysgu penodol disgyblion nad ydynt yn siarad Cymraeg fel iaith gyntaf yn rhugl. Yr her mewn ysgolion fel hyn yw galluogi disgyblion iau i ddod yn siaradwyr rhugl cyn gynted â phosibl trwy ganolbwyntio'n gyntaf ar ddatblygiad llafar wedi'i gynllunio'n dda, sy'n cynnwys cyfleoedd i ddisgyblion weld a gwrando ar ystod o sbardunau. Mewn rhai ysgolion, caiff y disgyblion hyn eu cyflwyno i dasgau darllen ac, yn arbennig, ysgrifennu, yn rhy fuan.

56 Mewn ysgolion effeithiol, mae parhad da â phrofiadau blaenorol disgyblion fel eu bod yn datblygu'r hyn y maent eisoes yn ei wybod yn raddol ac yn dod yn fwyfwy annibynnol wrth ddefnyddio eu medrau darllen ac ysgrifennu. O bryd i'w gilydd, mae ysgolion wedi cael budd o fabwysiadu'r un egwyddorion ar gyfer cynllunio'r cwricwlwm a fformat tebyg o'r dosbarth meithrin i Flwyddyn 2. Mewn mwyafrif o ysgolion, ni roddir digon o ystyriaeth i ystod o waith darllen ac ysgrifennu i fodloni gwahanol arddulliau dysgu, gan gynnwys cynllunio heriau dysgu sy'n apelio at fechgyn a darparu'r cyfleoedd ar gyfer rhyngweithio cymdeithasol sy'n aml yn well gan ferched.

57 Mewn llawer o ysgolion, mae staff yn cydnabod bod angen i ddisgyblion ddysgu ystod o strategaethau darllen, gan gynnwys ffoneg, 'gweld a dweud' a darllen ar gyfer ystyr. Mae ein hadroddiad 'Gwella dysgu ac addysgu medrau darllen cynnar' yn cyfeirio at waith ymchwil a thystiolaeth arolygu sy'n cefnogi ffoneg fel medr pwysig wrth ddysgu sut i ddarllen. Fodd bynnag, yn ogystal ag ymgysylltu â mecaneg datgodio geiriau, mae angen i ddarllenwyr allu gwneud synnwyr o'r hyn y maent yn ei ddarllen hefyd. Mae ennill medrau ffoneg yn un o ystod o strategaethau sydd eu hangen ar ddisgyblion i'w helpu i ddarllen. Mae mwy o wybodaeth am ffoneg yn yr adroddiad 'Gwella dysgu ac addysgu medrau darllen cynnar'.

58 Mae llawer o ysgolion yn darparu cyfleoedd da i ddisgyblion ddatblygu eu gwybodaeth bresennol am ffoneg yn ogystal â dysgu sut i ddefnyddio atalnodi wrth ddarllen. O ganlyniad, mae llawer o ddisgyblion yn datblygu'n ddarllenwyr rhugl, cywir a llawn mynegiant. Mae'r ysgolion mwyaf effeithiol yn sicrhau bod y gwaith yn helpu disgyblion i ddod yn fwyfwy ymwybodol o wahanol fathau o lyfrau a deunyddiau, gan gynnwys dramâu, cerddi a storïau o ystod o ddiwylliannau, adnoddau ffeithiol, geiriaduron a deunyddiau sydd wedi'u seilio ar TGCh. Nid yw rhai ysgolion yn helpu disgyblion i ennill ystod ddigon eang o strategaethau datgodio, fel defnyddio eu gwybodaeth am ramadeg, gan ddarllen ymlaen a gwirio synnwyr cyffredinol y darn.

59 Mae gan y rhan fwyaf o ysgolion gorneli llyfrau deniadol gyda digon o stoc mewn ystafelloedd dosbarth ac mae gan lawer o ysgolion lyfrgell. Mae'r adnoddau hyn yn meithrin darllen er mwyn pleser a dysgu. Yn yr ysgolion mwyaf effeithiol, mae staff yn cynllunio i ddisgyblion gael mynediad rheolaidd at y llyfrgell, fel sesiwn wythnosol gyda'u hathrawon dosbarth lle gall disgyblion fwynhau dewis llyfrau a dysgu medrau ymchwilio. Mae tystiolaeth arolygu yn dangos, mewn lleiafrif o ysgolion cyfrwng Saesneg a rhai ysgolion cyfrwng Cymraeg, nad oes digon o gynllunio ar gyfer datblygu medrau adalw gwybodaeth disgyblion. O ganlyniad, nid yw disgyblion yn caffael y medrau sydd eu hangen arnynt i ddefnyddio ystod o ffynonellau gwybodaeth yn gynyddol.

60 Mae cynllunio systematig o weithgareddau ysgrifennu yn helpu disgyblion i ddysgu gramadeg a strwythurau nodweddiadol gwahanol arddulliau ysgrifennu, gan gynnwys rhai adroddol, disgrifiadol, cyfarwyddiadol, esboniadol a thraethiadol. Mae'r agweddau hyn yn nodwedd gref o waith ysgolion effeithiol. Dim ond lleiafrif o ysgolion sy'n cynllunio'n dda i ddisgyblion ddysgu sut i ysgrifennu ar gyfer cynulleidfa ehangach a mwy amrywiol na'r bobl yng nghymuned uniongyrchol yr ysgol. Gall y gwaith hwn helpu disgyblion i ddeall medrau ysgrifennu pwysig, er enghraifft, yr angen i ddefnyddio arddull fwy ffurfiol mewn sefyllfaoedd penodol neu sut i esbonio

rhywbeth cyfarwydd i rywun estron. Yn y mwyafrif o ysgolion, y gynulleidfa fwyaf cyson yw'r athrawon. Mae angen i ddisgyblion ddefnyddio a datblygu eu medrau ysgrifennu mewn sefyllfaoedd dilys lle mae cynulleidfaoedd eraill heblaw athrawon.

61 Mae'r ysgolion mwyaf effeithiol yn rhoi cyfleoedd da i ddisgyblion ymestyn eu hysgrifennu a chynhyrchu gwaith manwl, fel rhan o'u gwaith mewn Cymraeg a Saesneg ac mewn pynciau ar draws y cwricwlwm. Yn yr ysgolion hyn, mae gan staff ddisgwyliadau uchel a beichus sy'n arwain at ddisgyblion yn ysgrifennu'n annibynnol yn helaeth gyda hyder, rhuglder a chywirdeb. Mae cyfleoedd i gynllunio, drafftio ac adolygu eu hysgrifennu yn ymestyn dealltwriaeth disgyblion o ysgrifennu fel proses. Mewn llawer o ysgolion, mae disgyblion yn aml yn cynllunio ar lafar neu trwy luniau'n gyntaf a gallant symud ymlaen yn ddiweddarach i fframweithiau sy'n eu helpu i drefnu a datblygu cynnwys eu gwaith. Mewn rhai ysgolion, nid yw disgyblion yn cael digon o gyfleoedd i gynllunio ac adolygu eu gwaith er mwyn ei wella.

62 Mewn rhai ysgolion, mae athrawon yn gosod tasgau ysgrifennu sy'n dod yn rhy fformwläig, ailadroddus a diflas i ddisgyblion. Er enghraifft, gall defnyddio dulliau ysgrifennu fel 'newyddion' yn rhy aml gyfyngu ar wreiddioldeb a chreadigrwydd, yn ogystal â lleihau'r cyfleoedd i ddisgyblion ysgrifennu mewn gwahanol ffurfiau a genres. Hefyd, nid yw athrawon yn hyrwyddo digon ar y syniad o awduriaeth, er mwyn helpu disgyblion i ystyried eu hunain yn ysgrifenwyr. Mewn lleiafrif o ysgolion, ni ofynnir am ddigon o ymdrech gan ddisgyblion wrth ysgrifennu, sy'n effeithio ar eu cynnydd a'u gallu i wella. Yn benodol, mae gorddefnyddio taflenni gwaith masnachol a thaflenni gwaith a luniwyd gan athrawon yn lleihau'r cyfleoedd i ddisgyblion ysgrifennu'n helaeth neu'n annibynnol oherwydd, yn aml, gair unigol neu frawddeg fer yn unig y mae gofyn iddynt ei (h)ysgrifennu.

63 Mae'r gallu i sillafu'n hawdd ac fel mater o drefn yn galluogi disgyblion i ddatblygu'n ysgrifenwyr sy'n gallu cyfathrebu'n well. Mae llawer o ysgolion yn cynllunio'n ofalus i ddisgyblion ddatblygu eu medrau sillafu a'u gwybodaeth am ramadeg. Fel arfer, mae ysgolion yn darparu rhestrau sillafu wythnosol i ddisgyblion eu dysgu, ond yn aml, er iddynt gyflawni'n dda mewn profion, nid yw'r holl ddisgyblion yn sillafu'r geiriau hyn yn gywir wrth ysgrifennu. Nid dysgu rhestr o eiriau ar gof yn unig yw dysgu sut i sillafu. Mae angen i ddisgyblion gaffael a defnyddio gwahanol strategaethau, gan gynnwys patrymau gweledol, dilyniannau sain, gwybodaeth am berthynas graffoffonig[12] ac ystyr. Mae ymagweddau fel dysgu sut i gyffredinoli a chwilio am batrymau a chysylltiadau yn elfennau hanfodol wrth ddysgu sut i sillafu.

64 Mae llawer o ysgolion yn rhoi sylw da i ddatblygu llawysgrifen disgyblion i'w helpu i gyflwyno eu gwaith yn glir, ond, fel gyda sillafu, nid yw pob disgybl yn symud ymlaen i ysgrifennu'n daclus ac yn ddarllenadwy. Mae disgyblion sy'n cael anhawster gyda llawysgrifen yn aml yn cael trafferth ailadrodd eu syniadau llafar ar bapur, sy'n eu gwneud yn rhwystredig. Mae tystiolaeth arolygu yn dangos, mewn llawer o ysgolion, bod disgyblion yn cael trafferth gyda sillafu a llawysgrifen a bod angen cyfleoedd cyson arnynt i gadarnhau eu gwybodaeth am:

- y berthynas rhwng synnau a symbolau ac ymwybyddiaeth ffonolegol[13];

[12] Llythrennau a geiriau a'u synau cysylltiedig
[13] Ymwybyddiaeth o synau mewn geiriau, fel y gallu i ymrannu synau cydrannol

- patrymau sillafu;
- teuluoedd geiriau;
- sillafu geiriau allweddol a chyfarwydd yn gywir fel y daw'r medrau hyn yn awtomatig;
- sut i lunio llythrennau a geiriau o faint a siâp rheolaidd; a
- sut i ddefnyddio confensiynau llythrennau bach a mawr yn gyson ac yn gywir.

65 Mae ymchwil yn dangos bod dysgwyr yn credu mai sillafu yw un o'r rhannau anoddaf o ddysgu sut i ysgrifennu. Mae ysgolion lle mae sillafu'r disgyblion yn gywir yn darparu arweiniad clir y mae athrawon yn ei ddefnyddio'n gyson, ac yn cysylltu'r gwaith o addysgu sillafu ag addysgu llawysgrifen. Mae athrawon yn annog disgyblion i gadw cronfeydd geiriau neu ddyddiaduron sillafu personol, yn addysgu rheolau sillafu ac yn defnyddio ystod o ymagweddau dysgu fel 'edrych, gorchuddio, ysgrifennu a gwirio' sy'n cefnogi cynnydd disgyblion. Mae staff hefyd yn wyliadwrus i atal gwallau sillafu disgyblion rhag dod yn sefydledig, gan ei bod yn aml yn anoddach o lawer i gywiro gwallau sillafu sefydledig yn ddiweddarach.

66 Mae strategaethau sydd wedi helpu disgyblion i wella eu llawysgrifen a chyfathrebu eu hystyr yn effeithiol yn cynnwys:

- helpu disgyblion i ddal pensel yn gyfforddus fel bod ysgrifennu'n haws iddynt;
- darparu cymorth unigol a chyfle i ymarfer yn rheolaidd; a
- esbonio'n glir pryd mae angen llawysgrifen daclus.

67 Mae adnoddau fel y bwrdd gwyn rhyngweithiol (BGRh) yn helpu staff i fodelu llawysgrifen ac yn rhoi delwedd weledol glir i ddisgyblion.

Ansawdd addysgu ac asesu

Addysgu darllen ac ysgrifennu

68 Mae addysgu disgyblion i ddarllen ac ysgrifennu'n gywir ac yn rhugl gyda hyder a dealltwriaeth yn hanfodol o ran eu helpu i gyflawni safonau uchel, yn ogystal â rhoi cyfleoedd iddynt lwyddo yn yr ysgol

69 Mae ansawdd yr addysgu mewn Cymraeg a Saesneg ar gyfer y rhan fwyaf o blant rhwng pump a saith oed yn dda. Mewn rhai ysgolion, mae gan yr addysgu nodweddion rhagorol, gan ysbrydoli disgyblion fel eu bod yn ddysgwyr brwdfrydig sy'n mwynhau gwaith iaith a llythrennedd. Yn yr ysgolion hyn, mae disgyblion yn ennill medrau darllen ac ysgrifennu cadarn iawn, wedi'u datblygu'n dda, sy'n eu helpu i gyflawni eu llawn botensial ar draws y cwricwlwm.

70 Mae addysgu Cymraeg a Saesneg yn effeithiol yn cysylltu llefaredd, darllen ac ysgrifennu, sy'n helpu disgyblion i ddeall bod y gwahanol foddau iaith hyn yn rhyngddibynnol. Pan fydd athrawon yn dangos medrau iaith mewn modd eglur, caiff disgyblion eu helpu i ddeall a chymhwyso'r hyn y maent wedi'i ddysgu drostynt eu hunain. Mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg, mae 'gweld a gwrando ar[14]' ystod o sbardunau gweledol a chlyweled yn elfennau arbennig o bwysig sy'n helpu disgyblion i ennill medrau iaith ar yr adeg hon.

71 Yn y rhan fwyaf o ysgolion, mae athrawon yn darparu cyfleoedd da i ddisgyblion ennill medrau darllen. Mae athrawon yn modelu darllen, yn adrodd ac yn ailadrodd storïau cyfarwydd ac yn darparu testunau o ansawdd da gan wahanol awduron. Mae disgyblion hefyd yn cael budd o ddarllen ar eu pennau eu hunain a chyda'i gilydd. Yn yr ysgolion mwyaf effeithiol, mae addysgu hefyd yn pwysleisio sut mae awduron yn llunio eu storïau, yn helpu disgyblion i arfarnu'n feirniadol sut mae awduron yn cyflawni eu pwrpas ac yn rhoi amser i ddisgyblion fyfyrio ar destunau ac ymateb iddynt. Mae pob un o'r agweddau hyn yn allweddol wrth ddatblygu medrau ysgrifennu'r disgyblion eu hunain.

72 Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn cael cyfleoedd da i ddarllen yn rheolaidd, ac mae staff yn monitro eu cynnydd a'u cyflawniadau'n ofalus. Dros y blynyddoedd diwethaf, mae defnyddio 'llyfrau mawr' i'w rhannu gyda grwpiau a dosbarthiadau, ac ymagweddau fel 'darllen dan arweiniad' gyda grwpiau o ddisgyblion o alluoedd darllen tebyg, wedi dod yn ffyrdd cyffredin o drafod testunau, datblygu medrau darllen a darparu ymarfer darllen rheolaidd. Mae astudiaethau achos 1 a 2 yn Atodiad 1 yn rhoi enghreifftiau o sesiynau darllen o ansawdd uchel gan ddefnyddio'r ymagweddau hyn. Yn y rhan fwyaf o ysgolion, mae disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn cael budd o sesiynau darllen unigol cyson iawn gydag oedolyn, sy'n eu helpu i wneud cynnydd da. Mewn ychydig iawn o ysgolion, mae'r holl ddisgyblion yn darllen i staff yn rheolaidd iawn, ond nid oes digon o bwyslais ar helpu disgyblion i ennill a defnyddio ystod eang o strategaethau datgodio. Mae trafodaethau am y testun yn aml yn fyr ac yn arwynebol.

[14] Gorchmynion y Cwricwlwm Cenedlaethol ar gyfer Cymraeg yng nghyfnod allweddol 1

73 Mae dysgu gwahanol fathau o ysgrifennu yn effeithiol yn cynnwys modelu'r broses, sy'n galluogi disgyblion i weld y prosesau y mae ysgrifenwyr yn eu defnyddio. Wrth i athrawon ddangos y gweithdrefnau hyn, mae disgyblion yn gweld bod ysgrifennu yn broses ryngweithiol. Maent yn dod yn ymwybodol o'r broses olygu ac yn magu hyder wrth ddefnyddio'r prosesau hyn eu hunain. Hefyd, mae llawer o ysgolion yn cynnal ac yn cefnogi ysgrifennu disgyblion yn llwyddiannus trwy ddarparu fframiau ysgrifennu, sef awgrymiadau ar gyfer dechrau brawddegau ac ar gyfer dechrau a gorffen storïau.

74 Mae sillafu, atalnodi a gramadeg cywir yn hanfodol wrth gyfathrebu ystyr i ddarllenydd. Mewn ysgolion lle mae medrau ysgrifennu disgyblion yn dda neu'n well, mae athrawon yn addysgu'r medrau hyn yn eglur. Mewn llawer o ysgolion, mae athrawon yn helpu disgyblion i ddatblygu dealltwriaeth o ramadeg trwy ddarllen. Mae astudiaeth achos 1 yn Atodiad 1 yn rhoi enghraifft o weithgareddau darllen dan arweiniad, sy'n cynnwys ffocws ar addysgu gramadeg.

75 Mae ysgrifennu da gan ddisgyblion yn digwydd yn aml oherwydd sbardun grymus ac mae'r ysgrifennu a geir o ganlyniad yn berthnasol i'w hanghenion a'u diddordebau. Mewn llawer o ysgolion, y brif gynulleidfa ar gyfer gwaith disgyblion yw'r athrawon. Pan fydd disgyblion yn ysgrifennu ar gyfer ystod o ddarllenwyr, gan gynnwys eu cymheiriaid, eu hunain a phobl eraill, gallant gael dealltwriaeth ddyfnach o ofynion penodol yr ysgrifennu, er enghraifft, ysgrifennu cyfarwyddiadau i'w cymheiriaid ar gyfer ystod o dasgau ymarferol. Mae astudiaeth achos 3 yn Atodiad 1 yn disgrifio fel yr oedd gan ddisgyblion resymau gwirioneddol dros ysgrifennu yn dilyn ymweliad â chaffi, a'u bod wedi llunio gwaith o ansawdd uchel o ganlyniad. Mewn rhai ysgolion, mae ysgrifennu'n aml yn fyr, yn arferol ac yn ddiddychymyg. Nid yw disgyblion yn cael digon o gyfle i ddysgu am wahanol ddulliau o ysgrifennu ac nid ydynt yn datblygu digon ar yr hyn y gallant ei wneud eisoes gan nad yw'r gwaith wedi'i osod na'i strwythuro mewn modd sy'n eu helpu i wneud hynny.

76 Mae arolygiadau'n dangos bod rhai athrawon, mewn rhai ysgolion mewn rhannau o Gymru Cymraeg eu hiaith, sydd â phrofiad sylweddol o addysgu disgyblion sy'n siarad Cymraeg fel eu hiaith gyntaf yn bennaf, yn ei chael yn anodd addasu i addysgu Cymraeg i ddisgyblion nad ydynt o gefndiroedd Cymraeg eu hiaith. Maent yn gweithio'n galed gyda'r disgyblion hyn, ond maent yn dueddol o gymryd yn ganiataol y bydd yr un ymagweddau a gaiff eu defnyddio gyda siaradwyr Cymraeg rhugl yn draddodiadol yn llwyddo gyda'r rheiny nad ydynt yn siarad Cymraeg yn rhugl.

Asesu darllen ac ysgrifennu

77 Mae'r modd y mae athrawon yn asesu darllen ac ysgrifennu wedi gwella'n raddol yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Mae ysgolion yn defnyddio ystod o ddata asesu i olrhain cynnydd disgyblion mewn Cymraeg a Saesneg. Mae barnu perfformiad disgyblion yn gyson yn erbyn nodweddion dilyniant yn arbennig o bwysig wrth gynllunio'r cam dysgu nesaf. Fel rheol, mae ysgolion yn cadw portffolios gydag enghreifftiau o waith ysgrifenedig disgyblion sydd wedi'i anodi, er mwyn helpu staff i lunio barnau dibynadwy a chyson ynghylch perfformiad a chynnydd disgyblion.

78 Yn arfer feunyddiol yr ystafell ddosbarth, mae'r rhan fwyaf o athrawon yn defnyddio ystod o ymagweddau i asesu darllen ac ysgrifennu. Mae'r ymagweddau hyn yn cynnwys asesu canlyniadau dysgu disgyblion mewn gwersi, er enghraifft yn dilyn sesiwn darllen dan arweiniad, neu ymateb i waith ysgrifenedig disgyblion. Hefyd, mae staff yn defnyddio profion asesu masnachol sy'n asesu agweddau ar fedrau darllen ac ysgrifennu disgyblion, fel darllen a deall a'u gallu sillafu. Mae ysgolion yn aml yn defnyddio asesiadau ychwanegol er mwyn helpu athrawon i wneud diagnosis o anhawster llythrennedd penodol disgybl.

79 Mae llawer o athrawon yn cynnwys disgyblion yn fwy gan ddefnyddio technegau fel asesu ar gyfer dysgu. Un o egwyddorion allweddol y dechneg hon yw y dylai disgyblion wybod ble maent, ble y mae angen iddynt fynd a sut i gyrraedd yno. Mae'r math hwn o asesu ffurfiannol yn canolbwyntio ar gyflawniadau'r disgybl a'r modd y gall ef neu hi symud ymlaen. Mewn ysgolion effeithiol, mae'r ymagwedd yn cynnwys tair elfen:

- technegau holi da gan yr athro/athrawes;
- adborth clir i ddisgyblion; a
- chynnwys disgyblion mewn hunanasesu ac asesu cymheiriaid.

80 Mae mwy o ysgolion yn cynnwys disgyblion wrth osod targedau i wella eu perfformiad. Mae'r dull hwn o osod targedau yn gweithio orau pan fydd athrawon yn defnyddio eu gwybodaeth am y camau bach sy'n arwain at gynnydd mewn darllen ac ysgrifennu yn y cyfnod hwn a, chyda'r disgybl, yn addasu'r targedau i fodloni anghenion yr unigolyn. Yn yr arfer orau, mae'r disgybl a'r athro/athrawes yn cytuno ar y detholiad o dargedau gyda'i gilydd a chaiff y targedau eu mynegi mewn modd dealladwy. O ddydd i ddydd, mae hyn yn helpu disgyblion i wybod pa fedrau i'w hymarfer a'u datblygu, fel 'Rydw i'n dysgu i ysgrifennu mwy ac i ddefnyddio dau neu dri o syniadau' neu 'Rydw i'n dysgu i ddefnyddio atalnod llawn ar ddiwedd brawddeg'. Mae mwy o ysgolion yn darparu cyfleoedd i ddisgyblion asesu eu gwaith eu hunain a gwaith disgyblion eraill, ond nid yw'r ymagwedd hon wedi ennill ei phlwyf eto yn y rhan fwyaf o ysgolion.

Bodloni anghenion disgyblion

81 Mewn llawer o ysgolion, mae athrawon yn fwyfwy ymwybodol o ddisgyblion nad ydynt yn gwneud y cynnydd a ddisgwylir oddi wrthynt, gan eu bod yn olrhain cynnydd disgyblion yn fwy systematig ac yn defnyddio ac yn dadansoddi data'n llawnach nag yr oeddent 10 mlynedd yn ôl.

Mynd i'r afael â thangyflawniad bechgyn

82 Yng Nghymru, mae merched 7 oed yn cyrraedd safonau uwch na bechgyn saith oed mewn Cymraeg a Saesneg. Er bod merched yn cyflawni'n well na bechgyn mewn mathemateg a gwyddoniaeth hefyd, mae'r gwahaniaeth rhwng eu cyflawniadau yn y pynciau hyn, sef tua 3%, yn llai amlwg o lawer. Yn gyffredinol, mae mwy o fechgyn yn cael trafferth dysgu Cymraeg a Saesneg na merched. Gall yr anawsterau hyn effeithio ar fynediad bechgyn at ddysgu a chyfyngu ar eu perfformiad ar draws holl feysydd y cwricwlwm.

83 Mae tangyflawniad bechgyn yn fater cymhleth gan fod llawer o ffactorau rhyng-gysylltiol. Mae'r ffactorau hyn yn cynnwys agweddau ar ryw ac agweddau diwylliannol, cymdeithasol ac emosiynol sy'n effeithio ar ddewisiadau disgyblion ac yn dylanwadu ar amgyffrediad athrawon yn ogystal ag ymddygiad disgyblion. Mae adroddiad Estyn, 'Cau'r bwlch rhwng cyrhaeddiad bechgyn a merched mewn ysgolion' (2008), yn cynnwys mwy o wybodaeth am y ffactorau sy'n dylanwadu ar y graddau y mae disgyblion yn gwireddu eu potensial.

84 Mae tystiolaeth arolygu yn dangos bod ychydig iawn o wahaniaeth rhwng cyflawniadau bechgyn a merched mewn darllen ac ysgrifennu mewn ychydig iawn o ysgolion. Yn yr ysgolion hyn, mae athrawon yn deall nodweddion ac ymddygiad bechgyn unigol yn dda iawn. Maent yn datblygu medrau llefaredd, darllen ac ysgrifennu gyda'i gilydd yn fedrus, fel bod disgyblion yn gweld eu bod yn gysylltiedig â'u bod yn offerynnau ar gyfer meddwl a chyfathrebu. Mae'r tasgau ysgrifennu'n amrywiol ac yn ddiddorol ac mae cydbwysedd gofalus rhwng ffurfiau traethiadol (storïau dychmygus) a mathau eraill o ysgrifennu. Mae llawer o fechgyn yn cael ysgrifennu'n fwy diddorol pan ofynnir iddynt 'ysgrifennu cyfarwyddiadau i chwarae gêm' (ysgrifennu gweithdrefnol), 'ysgrifennu am ymweliad â'r parc' (adrodd), 'llunio gwybodaeth am lyffant' (ysgrifennu adroddiad) neu 'ysgrifennu am sut y gwnaeth dyfais weithio' (esbonio). Yn yr ysgolion hyn, mae athrawon hefyd yn darparu ystod eang iawn o lyfrau a deunyddiau gan eu bod yn cydnabod ei bod yn bosibl nad oes gan fechgyn fynediad at y rhain gartref. Maent yn sicrhau y bydd yr adnoddau'n apelio at ddarllenwyr ifanc brwd ac amharod.

85 Mae tystiolaeth o arolygiadau a gwaith ymchwil yn dangos bod dysgu ac addysgu darllen ac ysgrifennu yn effeithiol yn cynnwys:

- addysgu sy'n ystyried arddulliau dysgu bechgyn, er enghraifft, defnyddio chwarae ac ymagweddau dysgu gweithredol fel cerddoriaeth, drama a chwarae rôl a chynnwys ymholi fel sail ar gyfer gweithgareddau darllen ac ysgrifennu dilys;

- darparu cyfleoedd cyson i drafod a rhannu syniadau a dealltwriaeth, cyn, yn ystod ac ar ôl darllen ac ysgrifennu;

- addysgu eglur a modelu medrau darllen ac ysgrifennu, fel mewn sesiynau darllen dan arweiniad ac ysgrifennu ar y cyd;

- darparu tasgau darllen ac ysgrifennu strwythuredig ac ystyrlon sy'n cael eu hesbonio'n glir;

- osgoi rhoi gormod o bwyslais ar ffurfiau traethiadol o ddarllen ac ysgrifennu, sef genre sy'n aml yn llai deniadol i fechgyn;

- defnyddio adnoddau symbylol er mwyn ennyn pob diddordeb, fel ystod eang iawn o ddeunyddiau llenyddol ac anlenyddol a TGCh;

- monitro gwaith disgyblion yn ofalus a rhoi adborth clir sy'n esbonio'r hyn y mae disgyblion yn ei wneud yn dda a sut y gallant wella; a

- defnyddio strategaethau cadarnhaol sy'n adeiladu hunan-barch disgyblion ac yn gwobrwyo ymdrech a gwaith da.

86 Yn draddodiadol, ychydig iawn o ddelfrydau ymddwyn gwrywaidd sydd ymhlith athrawon plant rhwng pump a saith oed. Mae ysgolion cynradd effeithiol yn dod o hyd i ffyrdd i ddarparu cyswllt â delfrydau ymddwyn gwrywaidd y mae disgyblion yn eu gweld yn gwerthfawrogi ac yn mwynhau darllen ac ysgrifennu. Mae'r ysgolion hyn hefyd yn sicrhau ymgysylltiad rhieni sy'n helpu i gefnogi a hyrwyddo darllen bechgyn. Fel hyn, mae'r disgyblion yn magu hyder ac yn cael cymorth i lwyddo mewn Cymraeg a Saesneg. Mae hyn yn arbennig o bwysig i fechgyn, gan fod angen iddynt ystyried eu hunain yn ddarllenwyr ac yn ysgrifenwyr o oed ifanc.

Bodloni anghenion disgyblion llai galluog

87 At ei gilydd, mae'r rhan fwyaf o ysgolion yn bodloni anghenion disgyblion llai galluog yn dda. Fel arfer, mae cymorth arbennig o dda i ddisgyblion ag anghenion addysgol arbennig, ac mae'r rhan fwyaf o gynlluniau addysgu unigol (CAUau) yn nodi'r medrau darllen ac ysgrifennu y mae angen i ddisgyblion eu caffael a'r camau y mae angen iddynt eu cymryd i gyflawni'r nodau hyn.

88 Mae gan lawer o ysgolion cynradd weithdrefnau nodi ac olrhain sefydledig er mwyn nodi'r angen am gymorth mor fuan ag sy'n bosibl a monitro cynnydd disgyblion. Mae'r ysgolion hyn yn gwneud defnydd da o asesu parhaus fel bod disgyblion yn symud i mewn ac allan o ymyriadau gyda gwaith sy'n cydweddu'n dda â'u hanghenion dysgu. Yn gyffredinol, mae cymorth ar gyfer darllen wedi'i ymgorffori'n dda yng ngwaith ysgolion. Yn aml, mae cymorth ar gyfer agweddau ar ysgrifennu, y tu hwnt i fedrau sillafu a llawysgrifen, yn llai sefydledig. Yn benodol, mae llai o bwyslais yn aml ar agweddau cyfansoddiadol ysgrifennu, fel dethol, trefnu a datblygu syniadau a gwybodaeth.

89 Mae ysgolion effeithiol yn defnyddio ystod eang o strategaethau ymyrryd sydd â hanes profedig o helpu disgyblion i ddal i fyny â'u cymheiriaid. Yn ystod y

blynyddoedd diwethaf, mae rhai o'r rhaglenni ymyrryd mwyaf llwyddiannus, y mae llawer ohonynt yn cael eu hariannu a'u cefnogi gan Sgiliau Sylfaenol Cymru, Llywodraeth Cynulliad Cymru neu'r awdurdod lleol, wedi cynnwys:

- rhaglenni llefaredd sy'n helpu i ddatblygu medrau siarad a gwrando disgyblion;
- rhaglenni 'Adfer Darllen';
- rhaglenni darllen Dyfal Donc;
- cyrsiau carlam byr ar lythrennedd;
- rhaglenni sillafu i fynd i'r afael ag anawsterau penodol; a
- rhaglenni unigol a grŵp sy'n cael eu darparu gan gynorthwywyr cymorth dysgu.

90 Mae pwyslais cynyddol ar ddatblygu medrau llefaredd disgyblion yn y rhan fwyaf o raglenni cymorth yn y cyfnod hwn, sy'n adlewyrchu pwysigrwydd sefydlu'r medrau hyn ymhlith plant rhwng pump a saith oed yn briodol.

Bodloni anghenion disgyblion mwy galluog a thalentog

91 Yn fwyfwy, mae staff mewn mwy o ysgolion yn ymwybodol o'r angen am ddarpariaeth well ar gyfer disgyblion mwy galluog a thalentog. Mae ysgolion effeithiol yn darparu cyfleoedd cyfoethogi ac ymestyn ar gyfer y disgyblion hyn sy'n mynd y tu hwnt i'r rheiny sy'n cael eu darparu ar gyfer y garfan gyffredinol o ddisgyblion. Yn yr ysgolion hyn, mae staff yn darparu tasgau ysgrifennu mwy ymdrechgar ac ystod ehangach o ddeunyddiau darllen heriol. Mewn rhai ysgolion, mae athrawon yn cynllunio gweithgareddau sy'n darparu symbyliad gwych i'r disgyblion hyn; maent yn herio eu meddwl trwy gwestiynau ymchwilgar ac yn rhoi pwyslais cryf ar ymagwedd tuag at ddysgu sy'n canolbwyntio ar ddatrys problemau.

92 Mae'r rhan fwyaf o ysgolion wedi llunio polisi er mwyn llywio arfer. Fodd bynnag, mae rhai o'r polisïau hyn yn canolbwyntio ar weithgareddau ymestyn a gwahanol fathau o waith cartref yn unig, ac nid ydynt yn rhoi digon o arweiniad ar arddulliau dysgu ac addysgu nac ar gydweddu'r ddarpariaeth ag anghenion unigol. Yn aml, nid yw ysgolion yn rhoi digon o flaenoriaeth i'r maes hwn.

93 Yn y mwyafrif o ysgolion, mae gofyn i ddisgyblion mwy galluog a thalentog gwblhau mwy o'r un gwaith â disgyblion eraill, fel ymgymryd ag ymarferion ysgrifennu hwy. Nid yw'r math hwn o weithgaredd yn gwneud digon i herio nac ymestyn medrau'r disgyblion hyn.

94 Mae gan leiafrif sylweddol o ysgolion gamsyniadau neu ddehongliadau cul o'r hyn sy'n diffinio disgyblion mwy galluog a thalentog, sy'n rhwystro eu gallu i adnabod a chefnogi'r disgyblion hyn. Er nad oes diffiniad sy'n cael ei dderbyn yn gyffredinol, yng Nghymru, mae'r term 'mwy galluog a thalentog' yn cynnwys tua 20% o gyfanswm poblogaeth yr ysgolion[15]. Yn bwysig, mae'r gwaith o adnabod disgyblion mwy galluog a thalentog yn gysylltiedig â'u cyd-destun, ni waeth sut mae'r disgyblion

[15] Derbyn yr Her, Cylchlythyr Llywodraeth Cynulliad Cymru Rhif: 006/2008

hyn yn cymharu â disgyblion mwy galluog a thalentog mewn ysgolion eraill. Mae hyn yn golygu y bydd grŵp o ddisgyblion sydd angen gweithgareddau dysgu ehangach a mwy dwys ym mhob ysgol.

Bodloni anghenion disgyblion y mae Saesneg a/neu Gymraeg yn iaith ychwanegol iddynt

95 Mae nifer y disgyblion sy'n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol (SIY) wedi cynyddu'n fawr mewn nifer sylweddol o ysgolion yn ystod y blynyddoedd diwethaf, wrth i Gymru ddod yn fwyfwy amrywiol.

96 Mae awdurdodau lleol yn cyflogi athrawon SIY arbenigol a chynorthwywyr cymorth amlieithog, ac, yn gyffredinol, rhoddir cyngor a hyfforddiant wedi'u cynllunio'n dda i athrawon i'w helpu i fodloni anghenion disgyblion SIY hyn sy'n cynyddu'n gyflym. Mae'r cymorth hwn wedi helpu disgyblion i gael addysgu a chymorth arbenigol mewn dosbarthiadau prif ffrwd. Mae model pum cam Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer caffael iaith, sy'n amrywio o 'Newydd i'r Saesneg neu'r Gymraeg' i 'Rhugl' yn helpu ysgolion i nodi pa gam y mae pob disgybl arno o ran caffael iaith a'r math o waith a chymorth y bydd ei angen arno/arni i ddatblygu ei fedrau/medrau Cymraeg neu Saesneg. Ar yr un pryd, gallai'r asesiad hwn nodi unrhyw anghenion dysgu ychwanegol.

97 Mewn rhai ysgolion, ni all staff sicrhau'r ddarpariaeth orau ar gyfer disgyblion SIY gan nad yw anghenion iaith disgyblion yn cael eu hasesu cyn gynted ag y byddant yn cyrraedd yr ysgol.

98 Mae'r dysgu mwyaf effeithiol ar gyfer disgyblion SIY yn digwydd pan fydd ysgolion:

- yn helpu disgyblion i ddatblygu eu medrau gwrando a deall, sy'n rhagflaenu darllen a deall;
- yn integreiddio dysgu iaith ar draws y cwricwlwm;
- yn sicrhau bod disgyblion yn clywed athrawon a chymheiriaid yn modelu iaith fel bod geirfa newydd berthnasol yn cydweddu â dealltwriaeth disgyblion;
- yn annog disgyblion i ddefnyddio siarad i ddatblygu eu meddwl a'u hymateb i'r hyn y maent yn ei ddarllen;
- yn defnyddio ymagweddau fel darllen ac ysgrifennu ar y cyd a dan arweiniad sy'n cynnal dysgu disgyblion, yn eu helpu i ddatblygu geirfa, yn defnyddio geiriau newydd yn eu cyd-destun ac yn datblygu eu hyder a'u hunan-barch;
- yn defnyddio testunau diwylliannol priodol ac yn darparu cymorth er mwyn datblygu gwybodaeth a dealltwriaeth o agweddau anghyfarwydd;
- yn addysgu confensiynau ysgrifennu'n glir i ddisgyblion y mae confensiynau iaith a diwylliant yn anghyfarwydd iddynt;
- yn rhoi rhyddid i ddisgyblion ddefnyddio eu hiaith eu hunain yn ôl yr angen;

- yn rhoi cyfle i ddisgyblion ymarfer a threfnu eu syniadau ar lafar a thrwy luniau cyn ysgrifennu ac yn annog dysgu cydweithredol/mewn grwpiau bach;

- yn monitro medrau iaith datblygol disgyblion yn ofalus;

- yn dadansoddi ystod eang o ddata asesu er mwyn nodi a thargedu cymorth ar gyfer disgyblion a'u hatal rhag tangyflawni; ac

- yn defnyddio gwybodaeth a medrau disgyblion SIY i gyfoethogi amgylchedd ieithyddol a diwylliannol yr ystafell ddosbarth.

Partneriaeth gyda rhieni

99 Gall ennill cefnogaeth weithredol rhieni wneud cyfraniad pwysig i fedrau darllen ac ysgrifennu disgyblion. Mae gan bron pob ysgol gysylltiadau da â rhieni ac maent yn gwerthfawrogi'r gefnogaeth a'r cyfraniad y maent yn eu gwneud i ddysgu disgyblion, fel gwrando ar eu plant yn darllen. Fel arfer, mae ysgolion yn canolbwyntio mwy ar helpu rhieni i gefnogi'r gwaith o ddatblygu medrau darllen eu plant. Er bod rhieni'n aml yn cefnogi'r gwaith o ddysgu rhestrau sillafu, ychydig iawn o ysgolion sy'n rhannu cymaint o wybodaeth am ddatblygu a hyrwyddo ysgrifennu disgyblion ag y maent ar gyfer darllen.

100 Mae'r rhan fwyaf o ysgolion yn darparu ystod o wybodaeth ddefnyddiol i rieni am ddarllen. Mae arweiniad a chyngor fel 'Dewch o hyd i ran dawel o'ch cartref' a 'Peidiwch â phoeni os yw'ch plentyn yn cael trafferth' yn helpu rhieni i ddarparu cyd-destun domestig a chymdeithasol addas ar gyfer darllen. Mae llawer o ysgolion yn cynnal cyfarfodydd a gweithdai er mwyn esbonio i rieni sut maent yn addysgu darllen a sut y gall rhieni helpu eu plant. Mae llawer o ysgolion yn defnyddio 'dyddiaduron darllen' i athrawon a rhieni rannu sylwadau beunyddiol am ddarllen disgyblion, sydd hefyd yn gallu helpu cynnydd disgyblion. Mae ysgolion yn aml yn cynnal digwyddiadau fel ffeiriau llyfrau i amlygu'r ystod o adnoddau cyffrous sy'n gallu tanio brwdfrydedd darllenwyr ifanc.

101 Mewn rhai achosion, mae ysgolion yn darparu cyfleoedd i rieni arsylwi athrawon yn gweithio gyda disgyblion i ddatblygu medrau darllen ac ysgrifennu. Yn yr achosion hyn, mae'r adborth gan rieni wedi bod yn gadarnhaol iawn. Mae ysgolion cyfrwng Cymraeg yn darparu cymorth i rieni di-Gymraeg disgyblion sy'n dysgu Cymraeg fel iaith gyntaf, fel y gall y rhieni hyn helpu eu plant i ddysgu iaith wahanol. Fodd bynnag, weithiau, nid yw'r cymorth hwn yn canolbwyntio digon ar helpu rhieni i gefnogi rhuglder llafar eu plant yn Gymraeg, er enghraifft, trwy roi arweiniad ar sut i atgyfnerthu patrymau iaith a geirfa'r gwaith sy'n cael ei wneud yn yr ysgol. Mae'r gwaith hwn yn arbennig o bwysig i ddisgyblion o gefndiroedd Saesneg, gan y gall ymestyn y cyfleoedd iddynt ymarfer eu medrau sy'n datblygu.

102 Yn aml, mae llawer o ysgolion yn defnyddio rhieni fel cynorthwywyr i gefnogi gwaith disgyblion yn yr ystafell ddosbarth, yn enwedig darllen. Mewn un prosiect partneriaeth darllen a gynhelir bob blwyddyn gan un ysgol, caiff rhieni hyfforddiant ar sut i adnabod ac atgyfnerthu ymddygiad da wrth ddarllen a sut i ddefnyddio technegau 'canmol' penodol. Mae'r ysgolion yn defnyddio'r ymagwedd hon yn hynod lwyddiannus i gefnogi disgyblion ym Mlwyddyn 2 y mae eu gallu darllen yn is na'u hoedran cronolegol. Mae rhai ysgolion wedi defnyddio cyllid gan brosiectau fel Codi Cyrhaeddiad a Safonau Addysgol Unigolion (Rhagori), yn llwyddiannus. Yn yr achosion hyn, mae athrawon yn cydweithio â grwpiau o rieni i ddangos iddynt sut i ddefnyddio gemau darllen ac adnoddau ar y rhyngrwyd i gefnogi'r gwaith o ddatblygu llythrennedd eu plant. Mae diwrnodau chwarae llefaredd, a ariennir gan Sgiliau Sylfaenol Cymru, ar gyfer rhieni a'u plant, yn helpu i ddatblygu iaith lafar disgyblion ac yn hyrwyddo cysylltiadau pwysig rhwng llefaredd, darllen ac ysgrifennu.

103 Mae rhai disgyblion sydd wedi'i chael yn anodd denu rhieni i'r 'nosweithiau rhieni' traddodiadol wedi gweithio'n galed i ymgysylltu â rhieni a'u cynnwys mewn ffyrdd eraill. Trwy ddatblygu 'boreau cwricwlaidd', sef sesiynau galw heibio yn ystod y

dydd, mae staff wedi dod o hyd i un dull poblogaidd. Caiff rhieni eu gwahodd i ymuno â dosbarth eu plentyn a chymryd rhan mewn rhai o'r gweithgareddau darllen. Mae'r ymagwedd hon wedi cael effaith fawr ar ddealltwriaeth rhai rhieni o ddysgu eu plant ac wedi cryfhau partneriaethau rhwng yr ysgol a'r cartref.

Arweinyddiaeth a rheolaeth

104 Fel arfer, caiff safonau uchel eu cyflawni mewn darllen ac ysgrifennu pan fydd arweinyddiaeth a rheolaeth gref a dylanwadol gan y pennaeth, cydweithrediad agos a gwaith tîm rhwng yr arweinydd pwnc a staff a brwdfrydedd diflino i godi safonau.

105 Mewn llawer o ysgolion, mae arbenigedd ac arweinyddiaeth yr arweinwyr pwnc Cymraeg a Saesneg wedi cyfrannu'n sylweddol at ddysgu ac addysgu darllen ac ysgrifennu yn effeithiol. Mewn mwyafrif o ysgolion, mae'r arweinwyr pwnc hyn yn dangos arweinyddiaeth ddeinamig, gwybodaeth ac ymroddiad. Mae ganddynt lefelau uchel o wybodaeth am y pwnc, maent yn ysbrydoli ac yn cefnogi cydweithwyr ac yn monitro gwaith er mwyn sicrhau bod disgyblion yn cael profiad llawn, cyfoethog a heriol o iaith a llythrennedd. Mewn rhai ysgolion, mae gwaith rhagorol gan gynorthwywyr cymorth dysgu (CCDau) hefyd wedi cyfrannu'n fawr at y safonau y mae disgyblion yn eu cyflawni. Mae astudiaeth achos 4 yn dangos sut mae CCDau mewn un ysgol wedi cefnogi cynnydd disgyblion yn llwyddiannus.

106 Mae tystiolaeth arolygu yn dangos bod yr arweinwyr gorau'n creu ethos lle mae staff yn disgwyl i ddisgyblion lwyddo mewn Cymraeg a Saesneg. Maent yn pennu dealltwriaeth gyffredin o sut i addysgu darllen ac ysgrifennu'n effeithiol. Mae cysylltiadau cryf â'r lleoliad blaenorol a fynychwyd gan y disgyblion, ymagweddau cyffredin tuag at ddysgu ac addysgu darllen ac ysgrifennu i blant rhwng pump a saith oed a pharhad â chyfnod allweddol 2, yn sicrhau bod disgyblion yn cael negeseuon cyson ynghylch dysgu iaith. Fel hyn, mae disgyblion yn symud ymlaen yn llwyddiannus ac yn trosglwyddo'n rhwydd i gyfnod allweddol 2.

107 Mae monitro systematig mewn llawer o ysgolion yn galluogi uwch reolwyr i sicrhau bod y gwaith o ddysgu ac addysgu darllen ac ysgrifennu cystal ag y gallai fod. Mae arfarnu'n helpu staff i farnu effaith mentrau llythrennedd ac effaith datblygiad proffesiynol parhaus ar safonau gwaith disgyblion. Mae astudiaeth achos 5 yn Atodiad 1 yn dangos sut y gwnaeth uwch reolwr welliannau i Saesneg mewn ysgol gynradd gan ddefnyddio'r prosesau hyn yn effeithiol.

108 Er gwaethaf gwaith da arweinwyr a rheolwyr, mae safonau plant saith oed wedi aros tua'r un fath ers bron i 10 mlynedd. Mae parhau i wella'r canlyniadau ar gyfer disgyblion yng Nghymru yn flaenoriaeth allweddol o hyd. Mae gan ysgolion effeithiol nodweddion sy'n unol â'r arfer orau mewn darllen ac ysgrifennu a nodwyd yn yr adroddiad hwn. Yn allweddol, yn yr ysgolion hyn, mae staff yn rhannu'r arfer hon, sydd wedi helpu uwch reolwyr i gael gwared ar unrhyw amrywiadau yn ansawdd y gwaith rhwng dosbarthiadau.

109 Mae rhannu rhaglenni gweithredu effeithiol yn greiddiol i lwyddiant wrth godi safonau. Wrth i ysgolion ddatblygu cymunedau dysgu proffesiynol ehangach, gyda chefnogaeth y Fframwaith Effeithiolrwydd Ysgol, gallai'r trefniadau hyn ddarparu cyfleoedd newydd i staff gymryd rhan ehangach mewn rhannu dysgu proffesiynol a chodi perfformiad mewn ysgolion. Man cychwyn calonogol ar gyfer y gwaith hwn yw'r cyfleoedd rhwydweithio sy'n bodoli eisoes mewn llawer o awdurdodau lleol ac ymhlith teuluoedd o ysgolion, i rannu agweddau ar arfer arloesol a dulliau o ennyn diddordeb darllenwyr ac ysgrifenwyr ifanc.

110 Yn gyffredinol, yn ystod y 10 mlynedd diwethaf, darllen fu'r flaenoriaeth fwyaf i'w datblygu mewn cynlluniau gwella ysgolion. Fodd bynnag, mae ysgolion yn aml yn parhau i ganolbwyntio ar ddarllen yn unig, pan fo safonau ysgrifennu yn yr ysgol yn is. Yn fwyfwy, mae ysgolion yn nodi llefaredd fel blaenoriaeth oherwydd ei bwysigrwydd sylfaenol i ddarllen ac ysgrifennu a chan fod mwyfwy o blant yn dechrau'r ysgol gyda medrau llefaredd llai datblygedig nag yn y gorffennol.

Gwaith awdurdodau lleol

111 Mae gan awdurdodau lleol rôl strategol allweddol o ran sicrhau bod ysgolion yn rhoi blaenoriaeth i ddatblygu medrau llythrennedd disgyblion. Mae gan bob awdurdod strategaeth llythrennedd ac maent yn darparu ystod o gymorth ymgynghorol a chwricwlaidd ar gyfer gwella safonau mewn Cymraeg a Saesneg.

112 Mae'r strategaethau llythrennedd mwyaf effeithiol yn cynnwys, yn benodol, y camau y bydd yr awdurdod ac ysgolion yn eu cymryd i wella addysgu a safonau darllen ac ysgrifennu. Mae cynlluniau gwella hirdymor, clir, sydd wedi'u seilio ar ddealltwriaeth dda o dueddiadau a pherfformiad mewn ysgolion unigol, yn helpu i bennu cynnydd. Mae monitro cyson ac arfarnu trylwyr yn sicrhau bod y gwaith o ddysgu ac addysgu darllen ac ysgrifennu cystal ag y gallai fod.

113 Mae'r rhan fwyaf o awdurdodau'n defnyddio ymgynghorwyr llythrennedd dynodedig i roi cymorth i ysgolion. At ei gilydd, mae'r ymgynghorwyr hyn yn darparu cymorth ac adnoddau da er mwyn helpu ysgolion i roi blaenoriaeth i ddatblygu medrau llythrennedd disgyblion. Mae astudiaeth achos 6 yn Atodiad 1 yn dangos sut mae ymgynghorwyr, mewn ardal Gymraeg yn bennaf, yn darparu ystod o gymorth llythrennedd i ysgolion.

114 Mewn llawer o awdurdodau, mae ystod eang o fentrau i gefnogi gwaith llythrennedd, fel 'Adfer Darllen', Dyfal Donc, Partneriaid Siarad, grwpiau cyfoethogi llythrennedd, rhaglenni Dysgu Teuluol a chynlluniau Llythrennedd Teuluoedd a rhaglen Rhagori. Lle mae mentrau ar gyfer plant rhwng pump a saith oed yn fwyaf llwyddiannus, maent yn adeiladu'n dda ar raglenni dysgu cynharach, fel Chwarae ac Iaith a Cychwyn Cadarn, sy'n cael yr effaith orau o'r gwaith. Yn y rhan fwyaf o awdurdodau, mae cymorth ar gyfer Cymraeg a Saesneg yn cysylltu'n effeithiol â chymorth ar gyfer medrau sylfaenol.

115 Mae awdurdodau'n defnyddio adnoddau a rhaglenni grant gan ystod o ffynonellau, er enghraifft, gan Lywodraeth Cynulliad Cymru, gan gynnwys adnoddau sydd ar gael trwy'r Gronfa Ysgolion Gwell, Rhagori a gweithredu'r Strategaeth Sgiliau Sylfaenol. Yn yr achosion gorau, caiff yr adnoddau a'r rhaglenni grant hyn eu targedu'n ofalus er mwyn gwella darllen ac ysgrifennu lle mae angen gwella safonau fwyaf.

116 Mewn ychydig iawn o awdurdodau, mae cymorth rhagorol ar gyfer llythrennedd mewn ysgolion wedi cyfrannu at welliannau sylweddol a pharhaus i safonau medrau darllen ac ysgrifennu disgyblion saith oed. Yn yr awdurdodau hyn, mae ymgynghorwyr llythrennedd medrus iawn yn cydweithio'n effeithiol iawn ag ysgolion i gefnogi, herio a gwella arfer.

117 Dros y 10 mlynedd diwethaf, mae disgyblion a staff mewn ysgolion yn awdurdod lleol Casnewydd wedi cael budd o'r strategaeth llythrennedd dda iawn, cymorth ymgynghorol a rhaglen hyfforddiant o ansawdd uchel, a rhwydweithiau cymorth ar gyfer staff sy'n gyfrifol am lythrennedd. Yn yr awdurdod hwn, mae ystod effeithiol o raglenni dal i fyny a rhaglenni cyflymu llythrennedd ar gyfer disgyblion sy'n tangyflawni. Yn benodol, mae'r awdurdod yn targedu cymorth at ysgolion a grwpiau o ddisgyblion nad ydynt yn cyflawni'n dda. Gyda'i gilydd, mae'r mesurau hyn wedi chwarae rhan allweddol mewn rhoi strategaeth llythrennedd yr awdurdod ar waith a chodi a chynnal safonau uchel mewn llythrennedd yng nghyfnod allweddol 1. Yn fwy diweddar, yn awdurdod lleol Caerffili, mae gwaith ymgynghorol a mentrau o ansawdd uchel i wella lefelau llythrennedd, yn enwedig ysgrifennu, yn helpu ysgolion i godi safonau. Yn yr awdurdod hwn, mae canran y plant saith oed sy'n cyflawni lefel 2 neu'n uwch mewn Saesneg wedi codi o 75.6 i 81.8, sef gwelliant o 6.2 pwynt canran o gymharu â'r gwelliant ledled Cymru o 1.3 pwynt canran (81.1% i 82.4%).

118 Mae pob awdurdod lleol yn defnyddio ystod eang o dystiolaeth, gan gynnwys data perfformiad a chanlyniadau arolygiadau, i arfarnu perfformiad ysgolion, yn enwedig mewn Cymraeg a Saesneg fel pynciau craidd yn y Cwricwlwm Cenedlaethol. Fodd bynnag, nid yw pob awdurdod yn dadansoddi data penodol ar gyfer darllen ac ysgrifennu yn ddigon manwl i'w helpu i nodi'r ysgolion sydd angen gwella fwyaf yn yr agweddau allweddol hyn ar lythrennedd.

119 Mae'r rhan fwyaf o awdurdodau wedi rhoi llawer o sylw i gefnogi ysgolion i ddeall a mynd i'r afael â'r gwahaniaethau rhwng cyflawniad bechgyn a merched mewn llythrennedd. Yn fwyfwy, mae gan awdurdodau lleol rai mentrau da i helpu ysgolion i ysgogi disgyblion mwy galluog a thalentog, ond nid oes gan bob awdurdod lleol ffyrdd o fesur effaith eu polisïau ar berfformiad disgyblion mwy galluog a thalentog.

Atodiad 1: Astudiaethau achos sy'n dangos enghreifftiau o arfer orau mewn gwella medrau darllen ac ysgrifennu disgyblion

Astudiaeth achos 1: Sesiwn darllen dan arweiniad

Cefndir

Mewn dosbarth Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2 cymysg, mae'r disgyblion yn cael dwy sesiwn darllen dan arweiniad bob wythnos gyda'u hathrawes ddosbarth. Caiff y disgyblion eu trefnu'n ddau grŵp yn ôl eu gallu darllen. Mae'r athrawes yn trefnu i weithio gyda'r grŵp am tua 25 munud. Mae'n gallu canolbwyntio ei sylw arnynt gan fod gweddill y dosbarth yn gweithio'n annibynnol ar y gwaith y mae eisoes wedi'i baratoi ar eu cyfer sydd wedi'i gydweddu'n dda.

Strategaeth

Fel arfer, mae'r sesiynau'n dechrau trwy adolygu'r stori, fel trafod y testun a'r teitl a'r hyn y mae 'broliant' y llyfr yn ei ddatgelu. Mae'r athrawes yn tynnu sylw'r disgyblion at yr angen i fwrw golwg dros y testun i chwilio am eiriau cymhleth ac yn dangos iddynt sut y gallant ddefnyddio atalnodi i help eu darllen a'u mynegiant.

Mae disgyblion yn darllen ar lafar yn eu tro ac mae'r disgyblion eraill yn y grŵp yn gwybod bod rhaid iddynt ddilyn y testun yn ofalus. Mae cwestiynau'r athrawes yn annog disgyblion i fyfyrio ar y digwyddiadau yn y stori a'u dehongli. Mae'n rhoi amser i'r disgyblion ystyried eu hymatebion ac yn eu hannog i fynd yn ôl at y testun i chwilio am atebion. Mae'n gwneud y disgyblion yn ymwybodol o nodweddion gramadegol, er enghraifft, nodi geiriau sy'n gorffen ag 'ed' sy'n cynrychioli'r gorffennol a nodi'r modd y mae ansoddeiriau'n rhoi mwy o wybodaeth i'r darllenydd. Mae'n tynnu sylw'r disgyblion yn fedrus at y modd y mae'r awdur yn defnyddio geiriau er mwyn creu effaith, fel defnyddio cyflythreniad mewn 'flapping flippers' a dewis geiriau fel 'thud' a 'splat', sy'n adleisio synau sy'n gysylltiedig â'u hystyr. Mae'n trafod sut y gall disgyblion ddefnyddio nodweddion arddulliadol y testun hwn yn eu hysgrifennu eu hunain.

Canlyniad

Mae'r disgyblion yn cael budd o gyfleoedd rheolaidd i fwynhau, darllen a thrafod testunau'n fanwl. Mae'r sesiynau'n cyfuno'r gwaith o addysgu darllen ac ysgrifennu mewn modd medrus fel bod disgyblion yn gwneud cynnydd da iawn wrth ddatblygu'r medrau hyn. Mae'r athrawes yn defnyddio'r sesiynau hyn i gael gwybodaeth werthfawr am fedrau darllen a deall y disgyblion.

Astudiaeth achos 2: Sesiwn darllen ar y cyd

Cefndir

Mewn dosbarth Blwyddyn 2 cyfrwng Cymraeg, mae'r disgyblion a'r athrawes yn rhannu llyfr mawr gyda'i gilydd ar y carped. Mae'r athrawes am i'r disgyblion ymestyn eu geirfa a gwella eu gwybodaeth am strwythur storïau. Caiff y gwaith ei ddefnyddio fel sbardun ar gyfer gwaith ysgrifennu'n disgyblion yn ddiweddarach pan fyddant yn ailadrodd y stori.

Strategaeth

Mae'r athrawes yn dechrau trwy ganolbwyntio ar glawr a theitl y llyfr ac mae'n cyflwyno geiriau newydd sy'n berthnasol i'r cyd-destun, gan ymestyn geirfa gynyddol y disgyblion. Ceir drafodaeth lafar helaeth a chaiff syniadau a gwybodaeth eu datblygu, sy'n paratoi'r disgyblion yn dda iawn ar gyfer eu gwaith ysgrifenedig yn ddiweddarach. Ar ôl darllen a thrafod y testun, mae'r athrawes yn dychwelyd at rannau penodol o'r stori er mwyn ystyried patrymau geiriau, y modd y mae'r awdur yn ailadrodd ymadrodd i greu effaith, a'r defnydd o atalnodi, fel gofynodau ac ebychnodau sy'n cynorthwyo darllen. Gan ganolbwyntio ar ddigwyddiadau'r stori, mae'r athrawes yn defnyddio cwestiynau agored yn fedrus i ddatblygu dealltwriaeth disgyblion o strwythur y stori ac i roi cyfle iddynt ddefnyddio ac atgyfnerthu eu geirfa.

Canlyniad

Mae'r drafodaeth, sydd wedi'i strwythuro'n ofalus, yn galluogi disgyblion i ymarfer a datblygu ei syniadau ar lafar cyn ysgrifennu. Mae'r ffocws ar ramadeg ac atalnodi'n helpu i atgyfnerthu dysgu'r disgyblion o'r Gymraeg. Mae'r sylw i strwythur y stori yn golygu bod yr holl ddisgyblion wedi'u paratoi'n dda ar gyfer y gweithgaredd ysgrifennu sy'n dilyn a'u bod yn llwyddo yn y dasg.

Astudiaeth achos 3: Darparu dibenion gwirioneddol ar gyfer ysgrifennu

Cefndir

Mewn ysgol gynradd, mae'r arweinydd pwnc Saesneg yn annog ei chydweithwyr i ddefnyddio profiadau gwirioneddol fel sbardun ar gyfer gwaith ysgrifennu'r disgyblion. Mae'n gwybod bod cyflwyno ysgrifennu mewn cyd-destunau bywyd go iawn yn helpu disgyblion i ganolbwyntio ar y pwrpas a'r gynulleidfa ac yn rhoi rhesymau dilys dros ysgrifennu. Mae'r athroniaeth hon yn arwain ymagwedd yr ysgol tuag at lythrennedd.

Strategaeth

Mae athrawes yn trefnu i'w disgyblion Blwyddyn 2 ymweld â'r caffi lleol fel rhan o'u pwnc ar fwyd. Mae'r disgyblion yn cyfarfod â'r perchennog ac yn siarad gyda'r staff a'r cwsmeriaid. Maent yn mwynhau gwisgo'r wisg, blasu'r bwyd a dysgu sut i ddefnyddio'r til. Mae'r disgyblion yn gofyn cwestiynau y maent wedi'u paratoi yn ogystal â llawer mwy sy'n codi'n ddigymell o'u profiad.

Yn ôl yn yr ysgol, mae'r disgyblion a'u hathrawes yn trafod yr ymweliad yn helaeth. Maent yn trafod dulliau o ymateb i'r profiad, fel ysgrifennu llythyr o ddiolch at y perchennog, llunio bwydlen i blant ar gyfer y caffi a llunio hysbyseb ar gyfer hysbysfwrdd yr ysgol. Ar ôl cytuno ar y mathau o ysgrifennu y byddant yn ei gwneud, mae'r disgyblion a'r athrawes yn pennu'r meini prawf y byddant yn eu defnyddio i arfarnu eu gwaith ysgrifennu. Yn y dosbarth hwn, mae'r athrawes yn annog asesu cymheiriaid. Wedi iddynt orffen ysgrifennu, mae'r disgyblion yn cydweithio â'u partneriaid, gan nodi'r hyn sy'n dda am eu gwaith a'r hyn sydd angen ei wella.

Canlyniad

Mae gwaith ysgrifennu'r disgyblion o ansawdd uchel. Maent yn trefnu, yn strwythuro ac yn cyflwyno eu hysgrifennu gydag ymdeimlad cryf o bwrpas a chynulleidfa. Mae'r disgyblion yn dysgu ac yn defnyddio geirfa benodol mewn cyd-destun sydd ag ystyr y tu allan i fyd yr ysgol.

Astudiaeth achos 4: Defnyddio cynorthwywyr cymorth dysgu i gefnogi disgyblion

Cefndir

Mewn ysgol cyfrwng Cymraeg, daw bron pob disgybl o gartrefi nad ydynt yn siarad Cymraeg fel eu hiaith gyntaf. Prin yw'r cyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu eu medrau iaith Gymraeg yn eu cymuned.

Strategaeth

Mae'r ysgol yn defnyddio cynorthwywyr cymorth dysgu (CCDau), wedi'u hariannu o gyllideb yr ysgol, i ddarparu rhaglen llythrennedd â ffocws ar gyfer disgyblion penodol sy'n cael trafferth darllen ac ysgrifennu. Caiff yr holl ddisgyblion eu profi trwy ddefnyddio prawf masnachol sy'n rhoi gwybodaeth ddiagnostig ddefnyddiol y mae staff yn ei defnyddio'n dda i lywio'r rhaglen addysgu. Fel arfer, mae disgyblion sydd ag oedi mewn darllen o flwyddyn neu fwy yn cael cymorth un-i-un dwys gan CCDau am 15 i 20 munud, deirgwaith yr wythnos.

Mae'r sesiynau hyn yn rhoi cyfle i'r disgyblion ymarfer ac atgyfnerthu eu medrau llefaredd, yn ogystal â datblygu eu medrau darllen. Mae athrawon a CCDau yn cydweithio'n agos iawn i gynllunio ac asesu gwaith a chynnydd disgyblion ac i gynnal cysylltiadau cryf â'r gwaith arall y mae disgyblion yn ei wneud yn yr ystafell ddosbarth. Mae defnyddio effaith ysgogol TGCh yn rheolaidd yn cefnogi'r rhaglen yn dda. Caiff rhieni wybodaeth dda am y rhaglen ac am gynnydd eu plentyn mewn cyfarfodydd a gynhelir ar ddechrau a diwedd y rhaglen.

Canlyniad

Mae'r disgyblion yn magu hyder ac yn gwneud cynnydd da, gan ennill a chadarnhau eu medrau darllen ac ysgrifennu, sy'n helpu eu gwaith ar draws y cwricwlwm.

Astudiaeth achos 5: Monitro ac arfarnu safonau gwaith ysgrifenedig disgyblion

Cefndir

Mewn ysgol gynradd fach, y pennaeth sy'n gyfrifol am Saesneg. Fel rhan o fonitro gwaith yn yr ysgol, mae'n casglu enghreifftiau o waith ysgrifennu o bob dosbarth. Er bod y disgyblion eisoes yn cyflawni safonau da, mae'n siŵr y gallant gyflawni mwy.

Strategaeth

Trwy graffu ar waith, mae'r pennaeth a staff yn nodi tair agwedd bwysig ar waith y mae angen eu gwella, sef:

- ymestyn ystod y genres ar gyfer gwaith ysgrifennu'r disgyblion;
- sicrhau bod ymarferion sillafu, gramadeg ac atalnodi yn berthnasol, yn ddiddorol ac yn gofyn digon gan yr holl ddisgyblion; a
- defnyddio llai ar daflenni gwaith, sy'n cyfyngu ar fedrau ysgrifennu annibynnol y disgyblion.

Yn ystod y flwyddyn, mae hyfforddiant staff yn canolbwyntio ar y meysydd a nodwyd. Mae athrawon yn adolygu eu cynlluniau fel bod disgyblion yn cael mwy o gyfleoedd i ysgrifennu mewn gwahanol genres. Maent yn sicrhau bod disgyblion yn cael tasgau ysgrifennu diddorol a heriol a chyfleoedd rheolaidd i ysgrifennu ar gyfer gwahanol ddibenion a chynulleidfaoedd. Mewn cyfarfodydd staff bob pythefnos, mae'r athrawon yn rhannu enghreifftiau o waith disgyblion, sy'n helpu i ddangos sut y mae'r gwaith yn symud yn ei flaen. Hefyd, mae athrawon yn ymweld â dosbarthiadau i arsylwi dysgu ac addysgu ac i rannu arfer dda. Ar ddiwedd y flwyddyn, mae'r pennaeth yn casglu enghreifftiau o waith ysgrifenedig y disgyblion ac yn dadansoddi'r gwaith.

Canlyniad

Mae gwaith craffu'r pennaeth ar waith ysgrifenedig yn dangos bod ystod ehangach o ysgrifennu trwy'r ysgol gyfan erbyn hyn. Mae'r dystiolaeth yn cynnwys: ysgrifennu llythyrau, storïau, ryseitiau, cyfarwyddiadau, taflenni, storïau tylwyth teg, cerddi, posau a phosteri. Yn galonogol, mae manteision ehangach hefyd, gan fod athrawon yn darparu dwy o gyfleoedd i ddisgyblion ysgrifennu mewn ystod o ffurfiau mewn meysydd eraill o'r cwricwlwm.

O ansawdd gwaith ysgrifenedig y disgyblion, mae'r pennaeth yn nodi bod disgyblion yn ysgrifenwyr mwy hyderus ac effeithiol erbyn hyn. Maent yn gwneud dewisiadau uchelgeisiol o ran eu geirfa, yn dangos mwy o reolaeth wrth gyfansoddi eu gwaith ysgrifennu ac yn ysgrifennu ar gyfer gwahanol ddibenion a chynulleidfaoedd. Mae llai o dystiolaeth o lawer o ymarferion 'heb gyd-destun', sy'n gwneud ychydig iawn i ddatblygu medrau ysgrifennu disgyblion. Mae'r gwaith craffu hefyd yn dangos bod llai o ddefnydd o daflenni gwaith, gan fod athrawon yn fwy deallus ynghylch pryd i'w defnyddio. Mae staff yn cydnabod bod lleihau'r defnydd o daflenni gwaith wedi helpu i ymestyn hyd ymatebion ysgrifenedig y disgyblion.

Astudiaeth achos 6: Menter llywodraeth leol i gefnogi gwaith llythrennedd mewn ysgolion

Cefndir

Mewn ardal Cymraeg ei hiaith yn bennaf, mae sawl awdurdod lleol yn defnyddio gwasanaethau sefydliad i ddarparu cymorth i ysgolion. Mae'r sefydliad hwn wedi llunio polisi a fframwaith arweiniad wedi'u diffinio'n glir ar gyfer pob medr iaith a datblygu iaith yn gyffredinol. Mae'r polisïau a'r fframweithiau'n cael llawer o ddylanwad mewn ysgolion, gan eu helpu i sicrhau cysondeb a chynllunio ar gyfer dilyniant a pharhad.

Strategaeth

Mae ystod bresennol y gwaith llythrennedd ar gyfer athrawon a disgyblion rhwng pump a saith oed wedi'i llywio'n dda gan athroniaeth y Cyfnod Sylfaen a'r Fframwaith Sgiliau, yn ogystal ag egwyddorion asesu ar gyfer dysgu. Mae ymgynghorwyr medrus yn rhoi pwyslais cryf ar yr angen i ysgolion ddarparu gwaith llythrennedd cyfoethog, eang ac amrywiol fel dull pwysig o ddatblygu dysgu disgyblion mewn darllen ac ysgrifennu. Maent yn cydbwyso'r gwaith hwn ochr yn ochr â datblygu medrau ffoneg, gwybodaeth ramadegol, sillafu cywir a chyflwyno'n dda. Yn fwyaf diweddar, mae'r gwaith wedi cynnwys:

- gwella llyfrgelloedd ysgolion a hyfforddiant ar gyfer staff ar ddefnyddio'r llyfrgell yn effeithiol;
- arweiniad ar ddefnyddio'r amgylchedd awyr agored i hyrwyddo llythrennedd;
- rhoi athrawon medrus ar secondiad tymor byr yn y sefydliad er mwyn rhannu arfer orau a darparu cymorth ar gyfer mentrau penodol mewn ysgolion;
- cynhyrchu deunyddiau fideo enghreifftiol i ysgolion eu defnyddio i'w helpu i wella ansawdd yr addysgu;
- darparu ystod o adnoddau amlgyfrwng symbylol a chyfieithu gwaith hynod boblogaidd i'r Gymraeg; a
- datblygu ystod o adnoddau, gan gynnwys TGCh, a fydd yn apelio at fechgyn.

Canlyniad

Mae gan ymgynghorwyr gyfrifoldebau diffiniedig a phenodol, sy'n arwain yn llwyddiannus at waith tîm effeithiol i gefnogi ysgolion. Mae ysgolion yn cael budd o gymorth ac adnoddau o ansawdd da, sy'n eu helpu i godi safonau.

Atodiad 2: Pecyn offer ar gyfer hunanarfarnu a gwella mewn ysgolion

Gall gwella'r gwaith o addysgu a dysgu darllen ac ysgrifennu gwneud gwahaniaeth go iawn i'r safonau y mae disgyblion yn eu cyflawni mewn Cymraeg a Saesneg, yn ogystal â mewn meysydd eraill o'r cwricwlwm. Efallai y bydd y cwestiynau allweddol sy'n dilyn yn helpu arweinwyr a rheolwyr i adolygu meysydd gwaith ac arwain gwelliannau pellach.

Cynllunio'r cwricwlwm

- A yw cynllunio ar gyfer datblygu medrau cyfathrebu yn digwydd ar draws y cwricwlwm cyfan ac yn cefnogi datblygu dwyieithog?
- A oes cynllun gwaith ansawdd uchel ar gyfer Cymraeg a Saesneg sy'n integreiddio'r gwaith o ddysgu ac addysgu llefaredd, darllen ac ysgrifennu gydag amcanion addysgu clir a'r wybodaeth, dealltwriaeth a'r medrau penodol y dylai disgyblion eu hennill ar lefelau testun, brawddegau a geiriau?
- A yw'r cynllunio'n darparu cydbwysedd da rhwng gweithgareddau strwythuredig ar gyfer addysgu medrau darllen ac ysgrifennu yn uniongyrchol ac ymagweddau gweithredol, gan gynnwys dysgu wedi'i seilio ar chwarae?
- A yw'r cynllunio'n darparu ar gyfer datblygu medrau meddwl, cynllunio, creadigol a datrys problemau'r disgyblion?
- A yw'r cynllunio'n adeiladu'n effeithiol ar ddysgu blaenorol disgyblion ac yn datblygu'n raddol trwodd i gyfnod allweddol 2?
- A yw'r gwaith yn cynyddu lefel yr her yn raddol ac yn cynnwys ystod o dasgau, fel bod y tasgau'n cydweddu'n dda ag anghenion disgyblion, gan gynnwys y rheiny sy'n cael anawsterau gyda llythrennedd a'r rheiny sy'n fwy galluog a thalentog?
- A oes cynlluniau i sicrhau bod disgyblion yn caffael ystod o strategaethau datgodio i'w helpu i fod yn ddarllenwyr rhugl ac i ddefnyddio atalnodi i gynorthwyo mynegiant?
- A oes ffocws cryf ar ddealltwriaeth ac amgyffrediad disgyblion o'r hyn y maent yn ei ddarllen?
- A oes cyfleoedd rheolaidd wedi'u cynllunio i ddisgyblion ddefnyddio'r llyfrgell ac ennill medrau casglu gwybodaeth?
- A yw disgyblion yn ysgrifennu at wahanol ddibenion ac mewn ystod o wahanol ffurfiau, gan ddefnyddio papur a TGCh i gyfansoddi eu gwaith?

- A oes cynlluniau systematig er mwyn sicrhau bod disgyblion yn dysgu am strwythurau nodweddiadol genre ysgrifennu a'r nodweddion y mae ysgrifenwyr yn eu defnyddio i greu effaith benodol?

- A yw tasgau ysgrifennu yn ddiddorol, yn amrywiol ac yn apelio at yr holl ddisgyblion, gan gynnwys bechgyn? Gweler astudiaeth achos 3 am enghraifft o arfer dda.

- A yw disgyblion yn cael cyfle rheolaidd i ysgrifennu ar gyfer cynulleidfa ehangach na'r athro/athrawes? Gweler astudiaeth achos 3 am enghraifft o arfer dda.

- A yw disgyblion yn cael cyfle i gynllunio, drafftio ac adolygu eu gwaith ysgrifennu, ar eu pennau eu hunain a chyda disgyblion eraill?

- A yw tasgau a gweithgareddau ysgrifennu'n gofyn am ddigon o ymdrech ac yn galluogi disgyblion i ysgrifennu'n helaeth? Gweler astudiaeth achos 5 am enghraifft o arfer dda.

- A yw disgyblion yn cael cyfle i ennill ystod o strategaethau i'w helpu i sillafu ac atalnodi'n gywir?

- A yw'r cynllunio'n dangos sut y bydd yr holl staff, gan gynnwys cynorthwywyr cymorth dysgu, yn cyfrannu at ddatblygu medrau llythrennedd disgyblion?

- A yw'r gwaith o ddatblygu medrau darllen ac ysgrifennu wedi'i ymgorffori'n gryf yng nghynlluniau gwaith a chynlluniau gwersi pob pwnc?

Addysgu ac asesu

- A yw'r addysgu'n ddeinamig ac a yw'r staff yn rhannu eu brwdfrydedd dros iaith a llythrennedd gyda'r disgyblion?

- A oes gan staff arbenigedd a gwybodaeth gadarn am y pwnc ac a ydynt yn defnyddio'r rhain yn effeithiol er mwyn helpu disgyblion i ddatblygu a chadarnhau eu medrau mewn Cymraeg a Saesneg?

- A yw staff yn cysylltu gweithgareddau llafar, darllen ac ysgrifennu mewn gwersi fel bod y disgyblion yn dysgu bod y moddau hyn yn rhyngddibynnol? Gweler astudiaethau achos 1 a 2 am enghreifftiau o arfer dda.

- A yw staff yn addysgu medrau'n eglur trwy ddangos ac esbonio ac a yw'r disgyblion yn cael cyfle i gymhwyso'r hyn y maent wedi'i ddysgu eu hunain? Gweler astudiaethau achos 1 a 2 am enghreifftiau o arfer dda.

- A yw staff yn cynnal dysgu disgyblion trwy ddulliau fel darllen ac ysgrifennu ar y cyd a dan arweiniad?

- A yw'r gweithgareddau'n cydweddu'n dda ag anghenion dysgu a galluoedd y disgyblion?

- A yw'r addysgu'n cydnabod ac yn hyrwyddo rhannu gwybodaeth a syniadau ar lafar er mwyn cynorthwyo gwaith meddwl ac ymateb?

- A oes holi a thrafod da, sy'n symbylu'r disgyblion i feddwl am eu syniadau eu hunain?

- A oes ffocws clir ar ddefnyddio siarad a datblygu syniadau ar lafar mewn ymateb i'r hyn y mae'r disgyblion yn ei ddarllen?

- A yw staff yn addysgu ysgrifennu fel proses gyfansoddi sy'n cynnwys cynllunio, creu, diwygio, golygu a rhannu drafftiau gyda phobl eraill?

- A oes ysgrifennu ar y cyd fel bod disgyblion yn deall fel y mae ysgrifennu'n cynnwys gwahanol agweddau ar gyfansoddi?

- A yw staff yn cydnabod bod cynulleidfaoedd go iawn yn ysgogwyr grymus wrth ysgrifennu'n dda ac yn helpu disgyblion i ddeall pwrpas penodol tasgau ysgrifennu?

- A oes ymagweddau cyson tuag at addysgu sillafu, atalnodi, gramadeg a llawysgrifen?

- A yw staff a chynorthwywyr cymorth dysgu'n cydweithio'n agos â'i gilydd i gefnogi anghenion dysgu disgyblion, fel cynllunio gyda'i gilydd a rhannu gwybodaeth asesu? Gweler astudiaeth achos 4 am enghraifft o arfer dda.

- A yw staff yn defnyddio adnoddau ysgogol, gan gynnwys y llyfrgell a TGCh, i helpu disgyblion i fod yn ddarllenwyr brwd ac i ymchwilio am wybodaeth?

- A all staff addasu ac arloesi'n llwyddiannus pan fo cymeriad ieithyddol yr ysgol yn newid? Er enghraifft, pan fo nifer gynyddol o ddisgyblion SIY neu gyfran fwy o ddisgyblion o gartrefi di-Gymraeg mewn ysgol sy'n addysgu trwy gyfrwng y Gymraeg?

- A yw staff yn defnyddio strategaeth 'dysgu i ddysgu' ac yn datblygu medrau meddwl er mwyn galluogi disgyblion i fod yn ddysgwyr annibynnol?

- A yw staff yn sicrhau bod disgyblion yn gwybod amcanion gweithgareddau a thasgau a'r hyn y maent yn dysgu i'w gyflawni?

- A yw staff yn sicrhau bod gwybodaeth asesu yn llywio cynllunio beunyddiol?

- A yw staff yn defnyddio meini prawf clir ac yn defnyddio'r rhain yn gyson i farnu cynnydd disgyblion?

- A yw cynnydd disgyblion wrth ddatblygu medrau iaith disgyblion yn cael ei fonitro'n agos, yn enwedig eu rhuglder, eu cywirdeb a'u hyder?

- A yw staff yn rhoi arweiniad ac adborth i ddisgyblion unigol fel bod disgyblion yn gwybod beth maent yn ei ddysgu a pha mor dda y maent yn cyflawni?

- A yw staff yn cynnwys disgyblion yn y broses o osod targedau, yn mynegi targedau mewn modd dealladwy ac yn sicrhau bod targedau'n bethau gweladwy ac amlwg i atgoffa disgyblion fel y gallant gyfeirio atynt yn rhwydd wrth weithio?

- A oes cyfleoedd i ddisgyblion asesu eu gwaith eu hunain a gwaith disgyblion eraill?

Bodloni anghenion disgyblion

- A yw disgyblion sy'n cael anawsterau wrth ddarllen ac ysgrifennu yn cael eu hadnabod cyn gynted ag sy'n bosibl?

- A yw disgyblion yn cael addysgu a chymorth arbenigol mewn dosbarthiadau prif ffrwd i fodloni eu hanghenion ac mewn parau a grwpiau mewn gwersi iaith ar wahân, lle bo hynny'n briodol?

- A yw gwaith disgyblion yn cael ei fonitro'n agos, gan roi cymorth penodol i ddisgyblion sydd angen cymorth wrth drefnu eu gwaith?

- A yw'r holl ddisgyblion yn cael cymorth i fagu hyder yn eu gwaith llythrennedd ac a ddangosir iddynt sut i fod yn llwyddiannus, sy'n arbennig o bwysig i fechgyn, gan fod angen iddynt ystyried eu hunain yn ysgrifenwyr?

- A oes ffocws clir ar **ba fechgyn** sy'n tangyflawni?

- A yw deunyddiau, gan gynnwys deunyddiau ffuglen a ffeithiol, cyfryngau a thestunau â delweddau symudol, yn cael eu dewis yn ofalus er mwyn apelio at fechgyn a merched?

- A yw'r gwaith ar gyfer disgyblion mwy galluog a thalentog yn eu hymestyn a'u herio fel eu bod yn gweithio hyd eithaf eu gallu?

Partneriaeth gyda rhieni

- A yw rhieni'n cael digon o wybodaeth i'w helpu i gefnogi cynnydd eu plant wrth ddarllen ac ysgrifennu?

- A oes cyfleoedd i rieni a'u plant gael budd o raglenni iaith a llythrennedd?

- A oes arweiniad manwl gywir, wedi'i gynllunio'n dda ar gyfer rhieni di-Gymraeg disgyblion sy'n cael eu haddysgu trwy gyfrwng y Gymraeg i'w helpu i gefnogi'r gwaith o ddatblygu medrau iaith Gymraeg eu plant?

Arweinyddiaeth a rheolaeth

- A yw'r pennaeth yn uniongyrchol gysylltiedig â gwella safonau mewn darllen ac ysgrifennu er mwyn rhoi statws i'r gwaith trwy'r ysgol gyfan a sicrhau ei bod yn flaenoriaeth ysgol gyfan? Gweler astudiaeth achos 5 am enghraifft o arfer dda.

- A oes gan yr ysgol aelod dynodedig o'r staff sy'n gallu arwain, cynghori, cefnogi a herio gwaith ar lythrennedd?

- A yw arweinwyr a rheolwyr yn sicrhau bod disgwyliadau uchel ar gyfer cyflawniad disgyblion, a gaiff eu mynegi fel targedau heriol i unigolion, dosbarthiadau a'r ysgol gyfan?

- A yw datblygu medrau darllen ac ysgrifennu disgyblion yn rhan reolaidd o gynllun gwella'r ysgol ac a yw rheolwyr yn cynnal trosolwg gwybodus o waith llythrennedd?

- A oes gan uwch reolwyr raglen wedi'i chynllunio'n dda ar gyfer adolygu ac arfarnu effaith mentrau llythrennedd ac a ydynt yn defnyddio'r canfyddiadau i gynllunio gwelliannau pellach?

- A yw'r ysgol yn targedu mentrau gwella ar yr agweddau gwannaf ar ddarllen ac ysgrifennu ac ar grwpiau o ddisgyblion sy'n gwneud y cynnydd lleiaf wrth ddatblygu eu medrau darllen neu ysgrifennu?

- A yw ystod gwaith y disgyblion yn cael ei harchwilio'n rheolaidd er mwyn sicrhau bod yr holl ddisgyblion yn cael profiadau llawn, cyfoethog a heriol o ddarllen ac ysgrifennu?

- A yw staff yn cael hyfforddiant rheolaidd a pherthnasol ar gyfer addysgu darllen ac ysgrifennu ac a ydynt yn cymryd rhan mewn mentrau llythrennedd?

- A yw'r ysgol yn defnyddio ystod eang o strategaethau ymyrryd sydd â hanes profedig fel y gellir helpu disgyblion i ddal i fyny â'u cymheiriaid?

- A yw staff cymorth yn cael eu defnyddio'n dda fel eu bod yn cyfrannu'n llawn at gefnogi disgyblion?

- A oes monitro cyson ac arfarnu trylwyr er mwyn sicrhau bod y gwaith o ddysgu ac addysgu darllen ac ysgrifennu cystal ag y gallai fod? Gweler astudiaeth achos 5 am enghraifft o arfer dda.

- A yw staff yn rhannu arfer dda a dysgu proffesiynol yn eang er mwyn cryfhau ac ymestyn eu gallu i wella?

- A oes gan yr awdurdod strategaeth llythrennedd ar gyfer yr awdurdod cyfan, sydd wedi'i datblygu'n dda, i ddatblygu medrau cyfathrebu disgyblion sy'n cynnwys, yn benodol, y camau y bydd yr ALl ac ysgolion yn eu cymryd i wella addysgu a safonau darllen ac ysgrifennu?

- A oes cynllun gweithredol clir i wella darllen ac ysgrifennu wedi'i seilio ar ddealltwriaeth dda o dueddiadau a pherfformiad mewn ysgolion unigol?

- A yw adnoddau o ystod o ffynonellau, er enghraifft, yr awdurdod, Llywodraeth Cynulliad Cymru a Sgiliau Sylfaenol Cymru, yn cael eu cydweddu'n ofalus er mwyn gwella darllen ac ysgrifennu lle mae angen gwella safonau fwyaf?

- A yw'r awdurdod yn darparu ystod dda o arweiniad a deunyddiau enghreifftiol ar gyfer addysgu ac asesu darllen ac ysgrifennu? Gweler astudiaeth achos 6 am enghraifft o arfer dda.

- A all ysgolion gael mynediad at arbenigwyr sy'n darparu hyfforddiant ac yn eu cefnogi i'w helpu i wella'r gwaith o addysgu darllen ac ysgrifennu?

- A yw'r awdurdod yn monitro'n gyson ac yn arfarnu'n drylwyr er mwyn sicrhau bod y gwaith o ddysgu ac addysgu darllen ac ysgrifennu cystal ag y gallai fod?

Awdur yr adroddiad cylch gwaith a thîm yr arolwg

Wendy Young AEM	Awdur yr adroddiad cylch gwaith
Gwen Davies AY	Aelod o dîm yr arolwg
Alun Morgan AEM	Aelod o dîm yr arolwg
Sarah Morgan AY	Aelod o dîm yr arolwg
Clive Phillips AY	Aelod o dîm yr arolwg